Y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012

Ymgynghoriad technegol ar y rheoliadau drafft

Cynnwys

Rhagair gweinidogaethol	3
Ystod yr ymgynghoriad a threfniadau ymgynghori	4
Eglurhad o rai o'r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad yma	8
Crynodeb o'r polisi	9
Y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012	12
Y Rheoliadau (Rheolau Cyfrifo Newydd) (Diwygio Canlynol ac Amrywiol) Cynnal Plant 2012	25
Eich sylwadau a sut byddant o werth i ni	27
Strwythur y rheoliadau cyfrifo cynhaliaeth	29
Atodiad A: Rhestr o fudd-ddeiliaid	31
Atodiad B: Ein cod ymarfer wrth ymgynghori	33
Atodiad C: Eglurhad manwl o feysydd mwy cymhleth	34

Rhagair gweinidogaethol

Mae cefnogi teuluoedd er mwyn atal tor-perthynas yn ganolog i weledigaeth y Llywodraeth Glymblaid ar gyfer atgyfnerthu teuluoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant. Serch hynny, pan fo perthynas yn chwalu, rydym eisiau galluogi rhieni i gymryd cyfrifoldeb a gwneud eu dewisiadau eu hunain er mwyn sefydlu cytundebau llwyddiannus ar ôl iddynt wahanu sy'n canolbwyntio ar les eu plant.

Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddwyd Papur Gwyrdd "Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldebau rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant"[1] . Roedd y Papur Gwyrdd yn amlinellu cynllun radical i ailwampio'r system cynhaliaeth plant er mwyn symud i ffwrdd o'r model presennol, ble gwelir y cynllun statudol cythruddol fel yr opsiwn awtomatig i rieni sy'n gwahanu, tuag at sefyllfa ble anogir a chefnogir teuluoedd i wneud eu trefniadau cydweithredol eu hunain. Wrth wraidd hyn bydd rhwydwaith gefnogi mwy integredig ar gyfer teuluoedd er mwyn helpu rhieni i wynebu'r materion emosiynol ac ymarferol niferus sy'n dod yn sgil gwahanu.

Ar gyfer rhieni na allant wneud trefniadau cynhaliaeth plant eu hunain, fe wnaethom osod allan yn y Papur Gwyrdd sut byddai cynlluniau presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant yn cael eu disodli gan gynllun effeithlon, newydd fydd yn defnyddio gwybodaeth incwm gan Gyllid a Thollau EM (HMRC). Bydd y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012 yn ategu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol er mwyn sefydlu'r fframwaith statudol diwygiedig y bydd y cynllun newydd yn gweithredu ynddi. Bydd y rheoliadau hyn yn galluogi gweithredu'r gwelliannau hyn i bolisïau er mwyn cyflwyno gwasanaeth symlach sy'n fwy effeithlon ac agored.

Ar 12 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd[2]. Roedd hyn yn tanseilio ymrwymiad y Llywodraeth i wneud cymorth arbenigol yn fwy hygyrch er mwyn helpu rhieni i wneud eu cytundebau teuluol eu hunain tra'n parhau i gynnig gwasanaeth statudol cymorthdaledig a hygyrch ar gyfer y rhai hynny sydd ei angen.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft ar gyfer y cynllun newydd. Yn bennaf, mae'r ymgynghoriad wedi ei anelu at rieni sy'n byw ar wahân, mudiadau sy'n cynrychioli rhieni sy'n byw ar wahân neu eu plant, mudiadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, cynrychiolwyr y gyfraith, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion cynhaliaeth plant. Ceir rhestr o'r budd-ddeiliaid rydym wedi anfon yr ymgynghoriad hwn atynt yn **Atodiad A**.

Rydym yn credu bod ailwampio'r cynllun cynhaliaeth plant statudol yn ffurfio rhan bwysig o'n cynigion ar gyfer rhoi gwell cefnogaeth i rieni sy'n byw ar wahân neu sydd yn y broses o wahanu. Rwy'n annog eich sylwadau a chyfraniadau.

Maria Miller AS

Gweinidog dros Bobl Anabl

[1] http://www.dwp.gov.uk/docs/strengthening-families.pdf
[2] http://www.dwp.gov.uk/consultations/2012/strengthening-families.shtml

Ystod yr ymgynghoriad a threfniadau ymgynghori

Testun yr ymgynghoriad

1. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012 drafft ("y Rheoliadau Cyfrifo") yn gosod allan yr holl reoliadau sy'n berthnasol i gyfrifo cynhaliaeth at ddibenion y cynllun cynhaliaeth plant newydd. Maent yn gosod allan y rheolau sy'n berthnasol i gyfrifo cynhaliaeth, gan gynnwys sut caiff incwm ei bennu, a'r amgylchiadau ble gellir amrywio'r rheolau hynny. Maent hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ceisiadau am gyfrifiad cynhaliaeth ac am wneud penderfyniadau mewn perthynas i wneud ac addasu'r cyfrifiad.

2. Ar y cyd gyda'r rheoliadau hyn, rydym hefyd yn cyhoeddi drafft o'r Rheoliadau (Rheolau Cyfrifo Newydd) (Diwygio Canlynol ac Amrywiol) Cynnal Plant 2012 ("y Rheoliadau Diwygio Canlynol ac Amrywiol"). Mae'r rhain yn cyd-fynd gyda'r prif reoliadau cyfrifo ac yn delio gyda newidiadau deddfwriaethol eraill fydd yn dod i rym o lansiad y cynllun newydd. Mae'r prif newidiadau yn rhoi darpariaethau'r Ddeddf Diwygio Lles 2009 ar waith fel a ganlyn:

    2.1. Diwygiad i'r Rheoliadau Gwybodaeth Cynnal Plant 2008, sy'n gosod allan gofyniad newydd i rieni dibreswyl roi gwybod am unrhyw gynnydd i'w hincwm presennol.

    2.2. Diwygiad i'r Rheoliadau (Casglu a Gorfodi) Cynnal Plant 1992 sy'n rhoi cyfnod cyfeirio newydd ar gyfer amserlennu taliadau. Bydd y rheoliad hwn yn galluogi i daliadau cynhaliaeth cynnal plant gael eu hamserlennu fel taliadau cyfartal dros gyfnod blynyddol.

Bwriad y Rheoliadau

3. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo yn ail ysgrifennu ac yn atgyfnerthu, gyda newidiadau sylweddol, pedair set o reoliadau presennol. Yr ymagwedd ar ail ysgrifennu'r rheoliadau hynny oedd cadw'r egwyddorion sylfaenol ble yn addas ond i'w symleiddio cymaint â phosib.

4. Y setiau presennol o Reoliadau sy'n cael eu disodli yw:

    4.1. Y Rheoliadau (Cyfrifo Cynhaliaeth ac Achosion Arbennig) Cynnal Plant 2000.
    4.2. Y Rheoliadau (Gweithdrefn Cyfrifo Cynhaliaeth) Cynnal Plant 2000.
    4.3. Y Rheoliadau (Amrywiadau) Cynnal Plant 2000.
    4.4. Y Rheoliadau (Penderfyniadau ac Apeliadau) Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant 1999 (hyd at ble maent yn berthnasol i gynnal plant).

5. Bydd y Rheoliadau Cyfrifo a'r Rheoliadau Diwygio Canlynol ac Amrywiol yn gymwys i geisiadau i'r cynllun statudol a geir ar ôl lansio'r cynllun newydd. Bydd y rheoliadau maent yn eu disodli yn parhau i fod yn gymwys i achosion presennol y CSA hyd nes bydd yr achosion hynny yn cau a bydd rhieni'n cael y

dewis o wneud cais i'r cynllun newydd drwy drefniadau trosglwyddo neu beidio. Bydd y trefniadau hynny yn cael eu gosod allan mewn Rheoliadau ar wahân.

6. Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud gan Weinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Asesiad effaith

7. Gellir gweld yr asesiad effaith a'r asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau yn http://www.childmaintenance.org. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau am y rhagdybiaethau sydd wedi eu gosod allan yn y rhain.

Ystod yr ymgynghoriad

8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Brydain Fawr yn unig. Nid yw'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r egwyddorion tu ôl i'r newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 gan y cafodd y rhain eu trafod yn sylweddol ar y pryd yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y Papur Gwyn 'System newydd ar gyfer cynhaliaeth plant' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006[3]. O ganlyniad, mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â rhoi'r egwyddorion hynny ar waith.

Hyd yr ymgynghoriad

9. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **01 Rhagfyr 2011** hyd at **23 Chwefror 2012**. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn **23 Chwefror 2012**.

Sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn

10. Er mwyn hyrwyddo'r broses ymgynghori rydym yn gofyn cwestiynau drwy gydol y ddogfen hon. Byddwn yn ddiolchgar os gallwch ymateb i'r cwestiynau hyn, ac yn ogystal, byddwn yn falch o gael clywed eich sylwadau am unrhyw agwedd ar ein cynigion ar gyfer y Rheoliadau [Cyfrifo Cynhaliaeth] Cynnal Plant 2012.

11. Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad:

Ar-lein	www.childmaintenance.org (cliciwch ar 'contact us')
Post	New Scheme Policy Team Child Maintenance and Enforcement Commission PO Box 61791 London SW1P 9NT
e-bost	CAXTONHOUSE.CONSULTATION@CHILDMAINTENANCE.GSI.GOV.UK

12. Wrth ymateb, dylech ddweud wrthym os ydych yn gwneud hynny fel unigolyn neu os ydych yn cynrychioli barn unrhyw fudiad. Os ydych yn ymateb ar ran unrhyw fudiad, dylech egluro pwy mae'r mudiad yn eu cynrychioli, a ble bo'n

[3] http://www.dwp.gov.uk/docs/csa-report.pdf

addas, sut cafodd sylwadau'r aelodau eu casglu. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth ein bod wedi cael eich ymateb.

Ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon

13. Dylai unrhyw ymholiadau am bwnc testun yr ymgynghoriad hwn gael eu gwneud:

Ar-lein	www.childmaintenance.org (cliciwch ar 'contact us')
Post	New Scheme Policy Team Child Maintenance and Enforcement Commission PO Box 61791 London SW1P 9NT
e-bost	CAXTONHOUSE.CONSULTATION@CHILDMAINTENANCE.GSI.GOV.UK

Casglu sylwadau ychwanegol yn yr ymgynghoriad hwn

14. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cael sylwadau am yr argymhellion hyn gan ystod eang o bobl. Rydym wedi anfon y ddogfen ymgynghori hon at nifer o bobl a mudiadau sydd â diddordeb mewn cynhaliaeth plant. Dylech rannu'r ddogfen hon gyda, neu ddweud wrthym am unrhyw un y credwch fyddai am gael bod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rhyddid gwybodaeth

15. Gall yr holl wybodaeth yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datguddio os gofynnir am hynny o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

16. Trwy roi gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn cydsynio iddi gael ei datguddio a'i chyhoeddi. Os nad dyma'r achos, dylech gyfyngu pa wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi, neu ei gadael allan yn gyfan gwbl.

17. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau y byddwn yn gallu gwneud hyn. Ni allwn warantu diogelwch unrhyw ymateb electronig, hyd yn oed os yw eich system TG yn honni hynny yn awtomatig.

18. Os ydych am gael gwybod mwy am egwyddorion cyffredinol rhyddid gwybodaeth a sut caiff hyn ei gymhwyso o fewn y Comisiwn, dylech gysylltu gyda:

Freedom of Information Focal Point
The Child Maintenance and Enforcement Commission
PO Box 61791

London
SW1P 9NT
foi.focalpoint@childmaintenance.gsi.gov.uk

19. Nodwch mai dim ond materion yn ymwneud â rhyddid gwybodaeth y gall y Canolbwynt Rhyddid Gwybodaeth (Freedom of Information Focal Point) roi cyngor arnynt, nid cynnwys y ddogfen ymgynghori hon.

Ceir mwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder www.justice.gov.uk

Adborth am yr ymgynghoriad hwn

20. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth am sut rydym yn ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y broses ymgynghori hon (yn hytrach na'r materion a godwyd) cysylltwch gydag ein Cydlynydd Ymgynghori:

Enw	Robin Van den Hende – Rheolwr Grwpiau Budd-ddeiliaid
Cyfeiriad	Policy and Legislation team Child Maintenance and Enforcement Commission PO Box 61791 London SW1P 9NT
e-bost	Robin.Van-den-Hende@childmaintenance.gsi.gov.uk

21. Yn enwedig, dywedwch wrthym os ydych yn teimlo nad yw'r ymgynghoriad yn bodloni'r meini prawf ymgynghori yng Nghod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori neu os ydych am wneud unrhyw sylwadau am sut gallai'r broses ymgynghori gael ei gwella ymhellach. Gallwch weld Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori yn **Atodiad B**.

22. Os bydd angen, gellir cael copïau o'r cyhoeddiad hwn ar ffurfiau eraill.

23. Anelwn at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a geir ar wefan y Comisiwn o fewn tri mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Byddwn yn ystyried bob ymateb wrth derfynu'r Rheoliadau drafft. Byddwn yn nodi pa gamau rydym yn bwriadu eu cymryd, a hefyd yn rhoi rhesymau pan na fydd sylwadau wedi cael eu hystyried, yng nghrynodeb yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Eglurhad o rai o'r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad yma

Plentyn cymwys	Plentyn y gwnaed cyfrifiad cynhaliaeth plant ar ei gyfer o dan y cynllun statudol.
Plentyn perthnasol arall	Plentyn y mae'r rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael budd-dal plant ar ei gyfer.
Plentyn yn yr Alban	Plentyn cymwys sy'n 12 oed neu'n hŷn ac yn byw yn yr Alban. Mae gan blentyn yn yr Alban yr hawl i wneud cais am gynhaliaeth plant ac amrywiad ei hunan.
Rhiant dibreswyl	Rhiant sy'n atebol i wneud taliadau cynhaliaeth a gyfrifwyd o dan y cynllun statudol.
Rhiant â gofal	Person sy'n rhoi cartref a gofal dyddiol i blentyn cymwys. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ddim yn rhieni ond sydd yn brif ofalwyr dyddiol y plant. Er enghraifft gallai fod yn nain neu daid, neu'n warcheidwad.
System statudol a gwasanaeth statudol	Mae'r system statudol yn derm sy'n cyfeirio at gyfrifo, casglu a gorfodi cynhaliaeth plant. Mae'n cynnwys rheolau'r cynllun ar gyfer cyfrifo cynhaliaeth a'r system TG a phrosesau ategol sydd gyda'i gilydd yn rhoi gwasanaeth i gleientiaid.
Cynllun statudol	Y rheolau ar gyfer cyfrifo, casglu a gorfodi cynhaliaeth plant.
Y Comisiwn	Y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.
HMRC	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Papur Gwyn 2006 'System newydd ar gyfer cynhaliaeth plant'	Roedd y ddogfen hon yn gosod allan yr argymhellion ar gyfer cyflwyno system cynhaliaeth plant newydd.
Deddf 1991	Y Ddeddf Cynnal Plant 1991.
Deddf 2008	Y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008.

Crynodeb o'r polisi

Cefndir y newidiadau

24. Y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y cynllun newydd yw'r Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 ("Deddf 2008"). Mae'r Ddeddf yma yn ategu neu'n disodli darpariaethau yn y ddeddfwriaeth sy'n gosod allan y cynllun statudol gwreiddiol ar gyfer cynnal plant, sef y Ddeddf Cynnal Plant 1991. Roedd Deddf 2008 yn gosod allan y fframwaith bras ar gyfer y cynllun newydd. Ffocws y cynllun yw cael proses cyflymach, agored a mwy cywrain ar gyfer asesu taliadau cynhaliaeth plant. Caiff hyn ei ategu gan system gyfrifiadurol newydd ac effeithlon.

25. Roedd Deddf 2008 hefyd yn gyfrifol am sefydlu Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant ("y Comisiwn"), gyda'i brif amcan o sicrhau bod trefniadau cynhaliaeth effeithiol mewn grym ar gyfer cymaint â phosib o blant sy'n byw ar wahân i o leiaf un o'u rhieni.

26. Ar 13 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid Bapur Gwyrdd, 'Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant'. Roedd y papur yn amlinellu'r problemau gyda chynllun 2003, yn ogystal â'r ffaith bod llai na hanner y plant mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu yn elwa o drefniadau cynhaliaeth plant effeithiol.

27. Fe wnaeth y Papur Gwyrdd osod gweledigaeth radical ar gyfer ailwampio'r system cynhaliaeth plant i roi mwy o gefnogaeth integredig i deuluoedd wrth iddynt wahanu, gan gydnabod yr amrywiaeth a chymhlethdodau'r materion sy'n wynebu rhieni yn yr amser anodd yma, ac i'w galluogi i wneud eu cytundebau teuluol cydweithredol eu hunain er budd eu plant.

28. Roedd y Papur Gwyrdd hefyd yn datgan y byddai'r Llywodraeth yn parhau i roi gwasanaeth statudol hygyrch i'r rhai hynny sydd ei angen, gyda darpariaethau penodol ar gyfer y rhai hynny mewn gwir angen. Roedd yn ailddatgan yr ymrwymiad i lansio'r cynllun newydd yn 2012, a bydd hwn, dros gyfnod o amser, yn disodli'r cynlluniau presennol sy'n cael eu rheoli gan yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA).

29. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a redodd hyd at 7 Ebrill 2011 a chyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb ar 12 Gorffennaf. Yn ei hymateb, fe wnaeth y Llywodraeth gadarnhau ei hymrwymiad i weithio gydag arbenigwyr yn y sector gwirfoddol i wella'r cymorth a roddir i rieni sydd yn neu sydd wedi gwahanu. Eto, roedd yn datgan ei hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth statudol newydd cymorthdaledig.

30. Mae'r Llywodraeth wedi ymroddi i wella'r system cynhaliaeth plant er budd teuluoedd a phlant, tra'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o ddeddfwriaeth ehangach sy'n cael ei ddwyn ymlaen i danseilio'r newidiadau hynny.

31. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r Comisiwn yn dod i ben fel corff cyfreithiol ar wahân ac y byddai, yn ogystal â'i waith, yn trosglwyddo i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae darpariaeth ar gyfer y newid hwn wedi ei gynnwys yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus, sydd yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. O ganlyniad, bydd y ddogfen hon yn cyfeirio at y Comisiwn yn cymryd camau sy'n berthnasol i'r cynllun newydd, sy'n adlewyrchu'r awdurdod cyfreithiol presennol a chynnwys y Rheoliadau hyn.

Y cyfrifiad cynhaliaeth plant statudol

32. Roedd Deddf 2008 yn rhoi'r pwerau galluogi ar gyfer set newydd o reolau symlach ac eglur ar gyfer y cynllun, tra'n cadw'r fframwaith bras oedd yn bodoli'n barod.

33. Bydd cyfrifiadau cynhaliaeth yn parhau i ystyried incwm y rhiant dibreswyl yn unig;

34. Bydd y cyfraddau atebolrwydd presennol yn cael eu cadw'n fras:

- cyfradd sylfaenol i'r rhai hynny gydag incwm wythnosol o £200 neu fwy;
- cyfradd is i'r rhai hynny gydag incwm wythnosol o £100 i £200;
- cyfradd unffurf o £7 ar gyfer y rhai hynny gydag incwm wythnosol sy'n llai na £100 neu sy'n cael budd-dal nawdd cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar gynyddu hyn neu beidio;
- cyfradd sero i'r rhai hynny gydag incwm wythnosol sy'n llai na £7 neu mewn rhai sefyllfaoedd arbennig penodol.

35. Gellir lleihau'r symiau cyfrifo os bydd rhieni dibreswyl yn rhannu'r gofal am blentyn neu os oes ganddynt blant maent hwy neu eu partner yn cael budd-dal plant ar eu cyfer.

36. Mae cynllun amrywiadau yn galluogi i'r cyfrifiad gael ei amrywio ar rhai seiliau arbennig sydd wedi eu penodi yn y rheoliadau.

37. Bydd y newidiadau a wneir i'r strwythur bras hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at yr amcan o ddarparu cynllun cyfrifo syml ac eglur. Mae rhai o'r newidiadau allweddol wedi cael eu hamlinellu isod:

37.1. Bydd cyfrifiadau cynhaliaeth yn ystyried plentyn sy'n cael ei gynnal gan y rhiant dibreswyl y tu allan i'r cynllun statudol. Caiff y rhain eu cydnabod fel cytundebau teuluol (naill ai drwy orchymyn llys neu drefniadau llai ffurfiol). Caiff plentyn sy'n cael ei gynnal fel hyn ei drin fel plentyn cymwys. Er enghraifft, bydd rhiant dibreswyl gydag un plentyn cymwys a phlentyn arall sy'n cael ei gynnal drwy gytundeb teuluol yn cael eu trin fel eu bod yn atebol i dalu am ddau blentyn cymwys. Bydd unrhyw gyfrifiad canlynol yn cael ei ddosbarthu rhwng swm ar gyfer y plentyn cymwys y bydd y rhiant dibreswyl yn atebol i dalu amdano a swm tybiannol ar gyfer y plentyn sy'n cael ei gynnal drwy gytundeb teuluol. Effaith hyn yw y bydd gan y rhiant dibreswyl

atebolrwydd statudol is nag os fyddai'r plentyn arall heb gael ei ystyried. Mae hefyd yn golygu y gall y cytundeb teuluol barhau heb gael ei effeithio.

37.2. Tra bydd cyfrifiadau yn parhau i gael eu seilio ar incwm perthnasol y rhiant dibreswyl, byddai gwybodaeth incwm yn cael ei cheisio yn wreiddiol gan Gyllid a Thollau EM (HMRC) yn hytrach na chan y rhiant dibreswyl, gan leihau'r tebygrwydd o oedi, y tebygrwydd o gael gwybodaeth anghywir, yn ogystal â'r bwrn ar gyflogwyr i roi'r wybodaeth hon.

37.3. Ychwanegu ail lefel o fewn y gyfradd sylfaenol ar gyfer y rhieni dibreswyl hynny gydag incwm wythnosol sy'n fwy na £800.

37.4. Cynyddu swm y gyfradd unffurf o £5 i £7. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar gynyddu hyn ymhellach neu beidio.

37.5. Cynnal adolygiadau blynyddol o'r cyfrifiad cynhaliaeth drwy ddefnyddio'r wybodaeth incwm ddiweddaraf a geir gan HMRC.

37.6. Osgoi'r angen i addasu cyfrifiadau ar gyfer newidiadau bychain mewn incwm.

38. Bydd y newidiadau a argymhellir yn cael eu tanseilio gan systemau cyfrifiadurol newydd, gan gynnwys rhyngwyneb gyda systemau HMRC er mwyn cael y wybodaeth incwm.

39. Mae gweddill y crynodeb hwn yn gosod allan y newidiadau mwyaf sylweddol o fewn y Rheoliadau hyn ac mae **Atodiad A** yn rhoi eglurhad manylach o'r rheolau a pholisi yn y meysydd mwy cymhleth.

Y Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Cynnal Plant 2012

Ceisiadau am gynhaliaeth plant statudol

40. Mae'r Rheoliadau yn parhau i wneud y broses o wneud cais yn syml i rieni. Gellir gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig neu dros y ffôn, naill ai yn bersonol neu drwy gynrychiolydd wedi ei awdurdodi.

41. Mae'r prif newidiadau yn y maes hwn yn berthnasol i achosion ble mae'r Comisiwn yn cael mwy nag un cais am gynhaliaeth ar gyfer yr un plentyn cymwys. Mae'r Rheoliadau yn darparu rheolau symlach ar gyfer penderfynu pa gais i brosesu. Yn gyffredinol, y cais a geir gyntaf fydd yn cael ei brosesu.

42. Unwaith bydd y Comisiwn wedi penderfynu y bydd cais yn mynd yn ei flaen, bydd yn rhoi gwybod i'r rhiant dibreswyl yn ysgrifenedig. Bydd yr hysbysiad hwn yn gosod y dyddiad o bryd bydd cynhaliaeth plant yn dechrau bod yn daladwy.

Gwneud y cyfrifiad

Incwm wythnosol gros

43. Bydd incwm wythnosol gros yn cynnwys dau fath:

    43.1. Incwm hanesyddol, a roddir i'r Comisiwn gan HMRC.
    43.2. Incwm presennol, ble bydd y wybodaeth fel arfer yn dod gan rieni neu gyflogwyr.

44. O dan y Ddeddf 2008, newidiodd y diffiniad o incwm wythnosol o "net" i "gros", gan adlewyrchu'r ffurf y cedwir gwybodaeth incwm arni gan HMRC. Ar gais, dyma sut bydd yn cael ei rhoi i'r Comisiwn gan HMRC. Mae hyn yn golygu incwm cyn didyniadau ar gyfer Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae cael diffiniad o incwm wythnosol gros yn golygu y bydd y swyddogion achos yn gallu defnyddio ffigyrau HMRC gyda llai o addasu. Hefyd, bydd y ffigyrau yn golygu mwy i lawer o rieni dibreswyl. Bydd mynd at HMRC am fwy o fanylion incwm yn osgoi llawer ar yr oedi sy'n codi ar hyn o bryd o ganlyniad i orfod dibynnu ar rieni dibreswyl neu eu cyflogwyr am y wybodaeth.

45. Yr unig addasiad fydd yn cael ei wneud i incwm hanesyddol neu incwm presennol (yn ychwanegol i'w newid i swm wythnosol) fydd i ddidynnu symiau a delir fel cyfraniadau i gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol sydd wedi eu hawdurdodi. Gwnaethom ystyried gosod terfyn ar y lefel o gyfraniadau ddylai gael eu gosod ond efallai na fyddai un terfyn yn gallu adlewyrchu'n deg yr amrywiaeth o amgylchiadau gwahanol y gall rhieni fod ynddynt. Er enghraifft, gallai fod yn fwy rhesymol i rieni dibreswyl sydd â llai o flynyddoedd gwaith ar ôl allu rhoi mwy yn eu cronfa bensiwn drwy dalu mwy o gyfraniadau na rhywun sy'n llawer ieuengach. Hefyd, ar nodyn mwy ymarferol, pan fydd cyfraniadau wedi cael eu gosod yn erbyn enillion gan gyflogwr, ni fydd y wybodaeth a gaiff y Comisiwn gan HMRC yn cynnwys unrhyw fanylion am y cyfraniadau hynny.

Mae'n well gennym gadw'r darpariaethau o fewn y cynllun amrywiadau ar gyfer rhiant â gofal sy'n ystyried bod cyfraniadau'r rhiant dibreswyl yn ormodol.

Incwm hanesyddol

46. Mae'r incwm o roddir gan HMRC yn dod o ddwy ffynhonnell:

    46.1. Ffurflenni treth Talu Wrth Ennill ddiwedd blwyddyn, wedi eu cwblhau gan gyflogwyr ar gyfer eu gweithwyr.
    46.2. Ffurflenni treth hunan asesiad wedi eu cwblhau gan drethdalwyr unigol.

47. Bydd HMRC yn rhoi manylion incwm am y flwyddyn dreth ddiweddaraf i'r Comisiwn a byddant wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer hyn. Ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu'r flwyddyn dreth ddiweddaraf. Os nad oes gwybodaeth am y flwyddyn honno, gall HMRC roi gwybodaeth gyfartal o flynyddoedd treth cynharach.

48. Mae incwm hanesyddol yn cael ei ddiffinio mewn ffordd sydd, yn fras, yn cynnwys y mathau o incwm sydd, o dan ddeddfwriaeth HMRC, yn destun Treth Incwm. Mae rhai gwahaniaethau, gan fod rhai mathau o incwm, fyddai yn cael eu cynnwys o dan hunanasesiad, ond nid o dan Talu Wrth Ennill, wedi eu heithrio gan y byddai'n arwain at drin rhieni dibreswyl yn wahanol oherwydd gwahanol ffynonellau manylion incwm. Mae Talu Wrth Ennill yn canolbwyntio ar enillion trethadwy. O ganlyniad, mae incwm trethadwy heb ei ennill - fel incwm o eiddo, cynilion a difidendau - symiau a ddengys yn unig ar ffurflenni treth hunanasesiad, yn cael eu cynnwys ymysg yr eithriadau. Mae darpariaeth o fewn y cynllun amrywiadau er mwyn ystyried hyn.

49. Mae'r incwm trethadwy fydd yn cael ei gynnwys mewn incwm hanesyddol at ddibenion y cyfrifiad cynhaliaeth yn cynnwys:

    49.1. Incwm cyflogaeth.
    49.2. Incwm masnachu.
    49.3. Taliadau o gynlluniau pensiwn galwedigaethol neu bersonol.
    49.4. Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy – Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau.

50. Un canlyniad o ddefnyddio incwm gan HMRC fydd na fydd cyfrifiadau cynhaliaeth bellach yn anwybyddu taliadau trethadwy mae rhai rhieni dibreswyl mewn swyddi penodol yn eu cael. Felly, bydd incwm trethadwy o'r rhestr o swyddi isod yn cael ei gynnwys yn yr atebolrwydd cynhaliaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod rhieni dibreswyl gyda thaliadau trethadwy o waith yn cael eu trin yn gyson. Roedd y cynllun cynnal plant a gyflwynwyd yn 2003 yn diystyru taliadau a wneir i rieni dibreswyl sy'n gweithio fel un o'r canlynol:

    50.1. Gwylwyr y glannau cynorthwyol.
    50.2. Diffoddwyr tân rhan amser.
    50.3. Aelodau rhan amser o'r bad achub.
    50.4. Aelodau o'r Adfyddin neu'r Lluoedd Tiriogaethol.
    50.5. Cynghorwyr awdurdodau lleol.

Incwm presennol - y ffynhonnell incwm arall a ddefnyddir yn y cyfrifiad cynhaliaeth

51. I lawer o bobl, ni fydd eu hincwm yn newid lawer o flwyddyn i flwyddyn ac felly yn y rhan fwyaf o achosion, bydd incwm hanesyddol yn ddigon agos i amgylchiadau presennol rhiant dibreswyl. Gallai cyfrifiad fod yn seiliedig ar incwm presennol rhiant dibreswyl os gall y naill riant ddangos ei fod o leiaf 25 y cant yn wahanol i'r ffigwr incwm hanesyddol. Bydd hefyd yn gymwys pan fo HMRC yn methu â rhoi ffigwr incwm positif ac nad yw'r rhiant dibreswyl mewn amgylchiadau ble byddai'r gyfradd unffurf neu gyfradd sero yn addas.

52. Mae'r diffiniad o incwm presennol hefyd yn seiliedig ar fathau o incwm fel y disgrifir o fewn deddfwriaeth HMRC. Mae hyn yn galluogi cymhariaeth realistig ar gyfer profi os yw incwm presennol o leiaf 25 y cant yn wahanol neu beidio. Fodd bynnag, nid yw budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy wedi eu cynnwys, gan y byddai'r ffaith bod rhiant dibreswyl yn cael un o'r rhain yn golygu y byddai'r atebolrwydd cyfradd unffurf yn gymwys.

53. Mae'r terfyn 25 y cant wedi cael ei ddewis er mwyn lleihau'r rhwystredigaethau i atebolrwydd cynhaliaeth sy'n gallu codi pan fo raid ystyried newidiadau rheolaidd a bychain i incwm. Er mwyn ategu hyn, yr amcan fydd i gael ffigwr incwm presennol sy'n rhesymol i'w ddefnyddio am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld.

54. O ganlyniad, pan fydd rhieni dibreswyl yn cael eu cyflogi a bod eu henillion yn amrywio (er enghraifft, oherwydd patrymau sifft neu oramser), gofynnir am dystiolaeth o'u henillion yn cynnwys cyfnod er mwyn gallu cael ffigwr teg ar gyfer swm wythnosol cyfartalog. Mae rhai symiau trethadwy yn cael eu talu ar achlysuron gwahanol i dâl rheolaidd; mae'r rhain yn cynnwys taliadau bonws, comisiwn a thaliadau eraill. Bydd y Comisiwn yn ceisio cael gwybodaeth am y rhain am y 52 wythnos diwethaf. Byddant wedyn yn cael eu newid i swm wythnosol cyfartal.

55. Fel ar gyfer incwm hanesyddol, bydd y diffiniad o incwm presennol ar gyfer pobl hunangyflogedig yn golygu elw trethadwy o fasnach dros gyfnod cyfrifo fydd fel arfer yn rhedeg am flwyddyn. Mae yn rhan o natur llawer o fusnesau i gael cyfnodau prysur a chyfnodau tawel a bydd nifer o benderfyniadau cyfrifo busnes – fel beth i geisio amdano ar gyfer lwfansau dibrisiant neu gyfalaf – yn gorfod cael eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn. Efallai na fydd ceisio sefydlu ffigwr ar gyfer incwm presennol ar un pwynt penodol yn ystod y flwyddyn masnachu yn rhoi adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol ehangach.

56. Am y rheswm hwn, bydd incwm presennol rhiant dibreswyl sy'n sefydlog mewn hunangyflogaeth dim ond yn cael ei dderbyn fel arfer os yw'n berthnasol i gyfnod blynyddol sy'n gyfartal â hynny sy'n cael ei gynnwys mewn rhan fwyaf o ffurflenni treth hunanasesiad. Dylai'r dystiolaeth o incwm presennol o'r fath fod ar ffurf sy'n cynnwys yr un wybodaeth a fyddai ar ffurflen dreth hunanasesiad. Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer ystyried incwm presennol dros gyfnod llai os yw busnes yn un newydd.

57. Os bydd y rhiant dibreswyl yn rhoi tystiolaeth ddigonol bod y busnes wedi stopio masnachu yn barhaol, bydd yr incwm presennol o hunangyflogaeth yn cael ei ystyried i fod yn ddim.

58. Pan nad oes ffigwr positif ar gael o HMRC, bydd y Comisiwn yn dibynnu ar gael manylion yr incwm presennol gan y rhiant dibreswyl, neu mewn rhai achosion, gan y cyflogwr. Os na all y Comisiwn gael gwybodaeth o'r fath, bydd yn gallu amcangyfrif incwm presennol. Fel arfer bydd hyn yn seiliedig naill ai ar wybodaeth a ddelir yn barod ar yr achos am incwm y rhiant dibreswyl neu o wybodaeth Lywodraethol gyhoeddedig fel yr Holiadur Blynyddol o Oriau ac Enillion (sy'n rhoi gwybodaeth am enillion ar gyfartaledd ar gyfer swyddi a rhanbarthau).

Y gyfradd is

59. Prif bwrpas y gyfradd is, sy'n gymwys i rieni dibreswyl gydag incwm wythnosol o fwy na £100 ond llai na £200, yw pontio rhwng y gyfradd unffurf a'r gyfradd sylfaenol, fel bod atebolrwydd cynhaliaeth plant yn gallu cynyddu'n wastad ar draws yr ystod yma o incwm heb gam-argymell unrhyw un i weithio llai.

60. Mae'r Rheoliadau yn cadw'r un strwythur cyfradd is ag o dan y cynllun a gyflwynwyd yn 2003. Mae hyn yn swm sy'n gyfartal â'r gyfradd unffurf ar gyfer y £100 cyntaf o incwm wythnosol, yn ogystal â chanran o'r incwm sy'n weddill. Bydd y ganran gaiff ei chymhwyso dal yn dibynnu ar y nifer o blant cymwys a phlant perthnasol eraill.

61. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys set o ganrannau diwygiedig sydd yn ganlyniad uniongyrchol o newidiadau a wnaed i'r swm cyfradd unffurf a'r canrannau cyfradd sylfaenol fel y gosodir yn y Ddeddf 2008. Mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau mawr mewn atebolrwydd wrth i riant dibreswyl symud o un gyfradd i'r llall.

Y gyfradd sero a rhieni dibreswyl sy'n fyfyrwyr

62. Mae cynhaliaeth plant statudol yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y dylai bob rhiant gynnal eu plant. Felly, fer arfer bydd gofyn hyd yn oed ar rieni dibreswyl sydd ar incwm llai, fel budd-dal nawdd cymdeithasol, i dalu swm cyfradd unffurf. O ganlyniad, dim ond mewn amgylchiadau arbennig y dylai rhiant gael eu heithrio rhag talu cynhaliaeth plant. Mae'r Rheoliadau felly yn cadw rhestr fer o gategorïau ble bydd cyfradd sero yn gymwys, gan gynnwys pan fo'r rhiant dibreswyl yn blentyn neu'n garcharor.

63. Nid yw'r Rheoliadau bellach yn cynnwys myfyrwyr yn y categori cyfradd sero. Mae ymchwil yn awgrymu bod cyfran sylweddol o fyfyrwyr yn gweithio tra'n astudio ac mewn sawl achos gall eu henillion fod yn gymharol sylweddol. Rydym wedi dod i'r canlyniad nad oes unrhyw reswm digonol pam y dylai myfyrwyr gael eu trin yn wahanol i rieni dibreswyl eraill gydag enillion. Felly bydd atebolrwydd cynhaliaeth plant myfyrwyr yn cael ei seilio ar eu hincwm wythnosol gros.

64. **Cwestiwn Un: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i dynnu myfyrwyr o'r achosion cyfradd sero a chyfrifo'r atebolrwydd yn seiliedig ar eu hincwm wythnosol gros?**

Rhannu gofal

65. Bydd y cynllun newydd yn parhau i ystyried rhannu gofal, fel y bydd rhiant dibreswyl sy'n cymryd rhan yng ngofalu am eu plentyn yn talu llai o gynhaliaeth fel arfer. Bydd y Rheoliadau yn galluogi'r Comisiwn i dybio faint o rannu gofal sydd mewn achosion ble nad oes cytundeb rhwng y rhieni, dim gorchymyn llys sy'n gosod allan faint o gyswllt fydd gan riant neu os nad oes tystiolaeth ddigonol i brofi unrhyw batrwm gofal sefydlog. Mae diffyg tystiolaeth gadarn yn achosi anhawster i swyddogion achos yn aml. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, bydd y Comisiwn yn tybio faint o rannu gofal sydd ar yr achos, sef un noson yr wythnos. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn arwain at ostyngiad o seithfed i'r gynhaliaeth sy'n daladwy.

66. **Cwestiwn Dau: Ai tybio faint o rannu gofal sydd ar achos yw'r ffordd gywir i osgoi rhai o'r problemau ymarferol presennol sy'n ymwneud â chyfrifo rhannu gofal?**

67. Byddwn yn parhau i dybio faint o rannu gofal sydd ar achos hyd nes daw'r rhieni i gytundeb neu, os ydynt yn rhan o achos teuluol, pan gaiff orchymyn ei wneud gan y llys.

68. Pan fo'r ddau riant yn rhannu'r gofal am blentyn cymwys, mae'r rheolau presennol yn mynnu bod un ohonynt yn cael ei ystyried yn rhiant dibreswyl ac felly eu bod yn atebol i dalu cynhaliaeth plant. Mae hyn wedi achosi problemau, yn enwedig mewn achosion ble rhennir y gofal am blentyn yn gyfartal.

69. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion ble gallai'r ddau riant gael eu hystyried i fod yn rhiant â gofal, yna'r rhiant sy'n rhoi llai o ofal fydd yn cael eu trin fel rhiant dibreswyl. I ddechrau, bydd rhagdybiaeth mai dyma fydd y rhiant sydd ddim yn cael budd-dal plant. Bydd y rhiant yma yn gallu gwrthdroi'r rhagdybiaeth hon os profir yn wahanol wrth edrych ar dystiolaeth o'r trefniadau gofal ar y cyfan. Mewn ychydig iawn o achosion, ble bydd gofal yn cael ei rannu yn gyfartal union, ni fydd unrhyw atebolrwydd cynhaliaeth statudol. Mae hyn yn adlewyrchu ein safbwynt y bydd y rhieni hynny sydd wedi gwneud cytundeb am rannu gofal yn aml yn fwy cymwys i allu gwneud eu cytundebau teuluol eu hunain.

Cytundebau teuluol

70. Er mwyn cydnabod y pwysigrwydd a'r gwerth mewn cefnogi rhieni sy'n awyddus i wneud eu trefniadau cynhaliaeth eu hunain, roedd Ddeddf 2008 yn cyflwyno rheolau er mwyn gallu ystyried plentyn sy'n cael ei gynnal fel hyn o fewn y cyfrifiad cynhaliaeth statudol. Byddwn yn trin plentyn gaiff ei gynnal fel hyn yr un fath â phlentyn cymwys. Er enghraifft, bydd rhiant dibreswyl gydag un

plentyn cymwys ac un plentyn sy'n cael ei gynnal drwy gytundeb teuluol yn cael eu trin fel petaent yn atebol i dalu am ddau blentyn cymwys. O ganlyniad bydd y cyfrifiad yn cael ei rannu fel a ganlyn, swm ar gyfer y plentyn cymwys y mae'r rhiant dibreswyl yn atebol i dalu ar ei gyfer a swm tybiannol ar gyfer y plentyn sy'n cael ei gynnal drwy gytundeb teuluol. Effaith hyn yw y byddai gan y rhiant dibreswyl atebolrwydd statudol llai nac os na fyddai'r plentyn arall wedi cael ei ystyried. Mae hefyd yn golygu y gall y cytundeb teuluol barhau heb unrhyw effaith arno.

71. Y bwriad yw, cyn belled â phosib, y bydd trefniadau ffurfiol, fel gorchymyn cynhaliaeth, a rhai mwy anffurfiol yn cael eu cydnabod yn y ffordd yma. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys dehongliad eang o'r hyn all gyfrif fel trefniadau anffurfiol, gan nodi nad oes raid i hyn fod yn ysgrifenedig ond byddai rhaid gofalu bod rhiant dibreswyl yn gwneud taliadau rheolaidd er budd plentyn sy'n byw'n barhaol yn y Deyrnas Unedig. Gellir gwneud y taliadau hyn yn syth i ofalwr y plentyn neu i drydydd parti.

72. Bydd y Comisiwn yn disgwyl cael tystiolaeth o unrhyw gytundeb teuluol sydd gan riant dibreswyl. Gallai hyn fod yn gytundeb ysgrifenedig; ond, bydd tystiolaeth o drefniadau a chytundebau llai ffurfiol yn dderbyniol hefyd.

73. Mae hyn hefyd yn gymwys i blentyn sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dim ond os yw'r rhiant dibreswyl yn atebol yn ffurfiol i'w cynnal o dan orchymyn llys neu system cynhaliaeth unrhyw wlad arall. Mae hyn yn ddarpariaeth sydd eisoes mewn grym.

Newid cyfrifiad

74. Y bwriad yw, unwaith caiff cyfrifiad cynhaliaeth ei wneud, bydd y cyfrifiad yn aros mewn grym am gyfnod rhesymol o amser. Bydd hyn yn sicrhau sefydlogrwydd mewn trefniadau talu ac mae hefyd yn cynnig sicrwydd i rieni am beth ddylent ddisgwyl ei dalu neu ei gael. Dyma pam, heblaw mewn amgylchiadau penodol, fel marwolaeth plentyn cymwys, nad oes raid i rieni ddweud am newid yn eu hamgylchiadau, ond gallant ddewis gwneud hynny os mai dyna yw eu dymuniad.

75. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall newid cyfrifiad fod yn ddymunol. Mewn achosion fel hyn, mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer adolygu'r cyfrifiad, fel y gellir ôl-ddyddio'r newid i'r dyddiad pryd dechreuodd y cyfrifiad (mae'r Rheoliadau yn disgrifio'r dyddiad yma fel y "dyddiad effeithiol"). Dyma rai enghreifftiau sy'n bodoli o adolygiadau a ddygwyd ymlaen:-

75.1. Ble mae rhiant yn cwestiynu cyfrifiad, er enghraifft drwy gyflwyno tystiolaeth berthnasol ychwanegol, o fewn 30 diwrnod i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi.
75.2. Ble mae'r cyfrifiad yn cynnwys gwall swyddogol.
75.3. Ble mae prawf DNA yn dangos nad y rhiant dibreswyl honedig yw'r rhiant.

76. Sail arall am adolygiad, a gyflwynwyd ar gyfer y cynllun newydd, yw os bydd y Comisiwn yn dod i wybod bod ffigwr incwm hanesyddol a gyflwynwyd iddynt gan HMRC wedi newid. Gall hyn ddod i'r fei oherwydd bod HMRC wedi darganfod gwall, neu fod trethdalwr wedi newid gwybodaeth a roddwyd ganddynt yn flaenorol ar eu ffurflen hunanasesiad.

77. Mae'r Mesur Diwygio Lles, sydd ar hyn o bryd o flaen y Senedd, yn cynnwys darpariaeth yn Atodlen 11 sydd yn ei gwneud yn hanfodol i bobl ofyn am adolygiad o benderfyniad ar eu cyfrifiad cynhaliaeth cyn apelio at dribiwnlys. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar wahân ar Reoliadau a fydd yn gwneud hyn yn hanfodol ar gyfer cynhaliaeth plant a budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

78. Gelwir addasiadau eraill i'r cyfrifiad a fydd yn ystyried newid mewn amgylchiadau, neu wybodaeth newydd yn dod i'r amlwg yn ddiwygiadau. Mae'r rhain yn wahanol i adolygiadau oherwydd fel rheol ni fydd unrhyw newid i'r cyfrifiad presennol yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad pryd dechreuodd y cyfrifiad. Gall diwygiad gael ei wneud yn dilyn cais gan barti i'r cyfrifiad, ond hefyd ar gais y Comisiwn ei hunan, er enghraifft, oherwydd eu bod wedi cael gwybodaeth gan drydydd parti.

79. Bydd gan y cynllun newydd set o reolau llawer symlach er mwyn penderfynu ar ddyddiad effeithiol diwygiad. Bydd y rheoliadau canlynol yn penderfynu pryd bydd atebolrwydd diwygiedig yn dod i rym:-

79.1. Y dyddiad pan ddigwyddodd y newid, er enghraifft, ble mae newid yn berthnasol i unrhyw blentyn yn yr asesiad (er enghraifft, plentyn cymwys nad ydynt bellach yn byw gyda'r rhiant â gofal), mae person sy'n ymwneud a'r cyfrifiad yn marw neu'n stopio byw'n barhaol yn y Deyrnas Unedig, neu mae rhiant dibreswyl yn dechrau neu'n stopio cael budd-dal.

79.2. Y dyddiad pryd y dywedwyd wrthym am y newid, er enghraifft, newid mewn incwm oedd yn o leiaf 25 y cant ac nad oedd gofyniad cyfreithiol ar y rhiant i roi gwybod am y newid.

79.3. Y dyddiad pryd gwnaed y penderfyniad, er enghraifft, ble mae'r Comisiwn yn gwneud diwygiad ar eu cais eu hunain yn dilyn gwiriad incwm presennol cyfnodol fel y crybwyllir ym mharagraff 83.

80. Un o nodweddion y cynllun newydd fydd diweddariad blynyddol o incwm gros wythnosol rhiant dibreswyl. Bydd hyn fel rheol yn cymryd lle 12 mis ar ôl dyddiad effeithiol gwreiddiol pob achos, a phob blwyddyn ar ôl hynny. Pan ofynnir i HMRC, byddant yn rhoi gwybodaeth incwm hanesyddol newydd i'r Comisiwn fel y daw manylion y flwyddyn dreth ddiweddaraf ar gael. Golyga hyn y bydd mwy o gyfrifiadau yn cael eu seilio ar y wybodaeth incwm ddiweddaraf. O dan y cynlluniau CSA presennol, gall yr un manylion incwm gael eu defnyddio yn y cyfrifiadau am nifer o flynyddoedd.

81. Pan fo'r cyfrifiad presennol wedi'i seilio ar incwm hanesyddol, bydd y ffigwr newydd a roddir gan HMRC yn cael ei ddefnyddio, waeth pa mor fychan yw'r gwahaniaeth. Os bydd rhiant yn dymuno cael cyfrifiad wedi ei seilio ar yr incwm presennol, bydd rhaid i'r ffigwr hwnnw fod o leiaf 25 y cant yn wahanol i swm yr incwm hanesyddol newydd.

82. Pan fo'r cyfrifiad presennol wedi ei seilio ar incwm presennol, bydd y ffigwr newydd a roddir gan HMRC yn cael ei gymharu gyda'r swm hwnnw. Os bydd y newid yn parhau i fod yn 25 y cant neu fwy, bydd y ffigwr incwm presennol yn parhau i fod yn gymwys. Ond os yw'r gwahaniaeth yn llai na 25 y cant, yna defnyddir y ffigwr incwm hanesyddol newydd.

83. Bydd gwahanol fath o adolygiad yn cael ei gynnal os seilir y cyfrifiad ar yr un ffigwr incwm presennol am 12 mis. Mae'r Rheoliadau yn disgrifio hyn fel "gwyriad incwm presennol cyfnodol". Mae'n golygu y bydd rhaid i rieni dibreswyl roi tystiolaeth i ddangos os oes dal wahaniaeth sy'n o leiaf 25 y cant rhwng eu ffigwr incwm presennol diweddaraf a'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf a roddwyd gan HMRC. Os gallant wneud hyn, bydd yr incwm presennol newydd yn dal i gael ei ddefnyddio i wneud cyfrifiad newydd. Os na allant wneud hyn, bydd y cyfrifiad yn cael ei ddisodli gan ddefnyddio'r ffigwr hanesyddol gan HMRC. Bydd hyn yn cefnogi'r amcan y dylai cyfrifiadau yn seiliedig ar incwm presennol fod yn y lleiafrif.

84. **Cwestiwn Tri: Ydych yn credu bod y gwiriad cyfnodol o incwm yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adolygu?**

Amrywiadau

85. Bydd y cynllun newydd yn parhau gyda'r ddarpariaeth i alluogi'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r achos i wneud cais i amrywio'r rheolau cyfrifo ar seiliau a benodir yn y rheoliadau.

Treuliau arbennig

86. Mae'r Rheoliadau yn gosod allan yr amgylchiadau ble gall treuliau rhiant dibreswyl, yn dilyn cais i'r Comisiwn, arwain at ostwng y gynhaliaeth plant drwy gael eu gosod yn erbyn yr incwm wythnosol gros. Bydd y mwyafrif o'r treuliau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cydnabod, er enghraifft costau cyswllt, dyledion o berthynas flaenorol, ffioedd ysgol breswyl a salwch neu anabledd plentyn perthnasol yn parhau i fod yn gymwys. Mae'r prif newidiadau a wneir gan y Rheoliadau yma fel a ganlyn:

    86.1. Ni fydd y sail amrywio bresennol ar gyfer achosion ble gwnaed trosglwyddiadau Eiddo neu Gyfalaf cyn Ebrill 1993 yn parhau mewn grym oherwydd na fydd unrhyw blant cymwys, y gallai'r sail yma fod yn berthnasol iddynt, yn weddill erbyn i'r cynllun newydd ddod i rym.

86.2. Bellach, bydd yn bosib i riant dibreswyl gael amrywiad am y treuliau sy'n deillio o gadw cyswllt gyda'r plentyn cymwys yn ystod cyfnod pan fydd ganddynt hefyd ostyngiad yn eu cyfrifiad cynhaliaeth ar gyfer rhannu gofal. Mae cynllun 2003 yn atal amrywio yn yr amgylchiadau yma.

86.3. Bydd pob traul (ar wahân i'r rhai hynny sy'n berthnasol i salwch neu anabledd plentyn perthnasol arall) yn destun trothwy o £10. Golyga hyn, ar gyfer pob sail, na chaniateir amrywiad yn llawn os bydd y gost yn llai na £10 yr wythnos ond bydd yn cael ei ganiatáu yn llawn os bydd yn cwrdd neu'n fwy na'r swm hwnnw. Bydd hyn yn disodli'r ffigyrau trothwy presennol, sef £10 os yw incwm wythnosol rhiant dibreswyl rhwng £100 a £200, a £15 os yw'r incwm wythnosol yn fwy na £200, a chaiff ei roi ar y balans sydd dros y trothwy yn unig.

Achosion incwm ychwanegol

87. Gall rhiant â gofal wneud cais am amrywiad mewn achosion ble ystyrir bod gan riant dibreswyl incwm sydd heb gael ei ystyried yn y prif gyfrifiad. Ble nodir incwm o'r math yma caiff ei ychwanegu at yr incwm gros wythnosol presennol a'i ddefnyddio i osod atebolrwydd newydd.

88. Mae HMRC yn casglu gwybodaeth ar incwm trethadwy fel incwm o gynilion a buddsoddiadau, difidendau ac eiddo gan y trethdalwyr hynny sydd yn ofynnol arnynt i gwblhau ffurflenni hunanasesiad. Mae'r Rheoliadau'n disgrifio'r mathau yma o incwm fel "Incwm heb ei ennill". Bydd y wybodaeth yma ar gael i'r Comisiwn ar gais, ond dim ond yn dilyn cais am amrywiad. Ble ddefnyddir gwybodaeth heb ei ennill, a roddir gan HMRC, i wneud cais am amrywiad, bydd y Comisiwn yn edrych ar geisio cael y wybodaeth ddiweddaraf gan HMRC fel rhan o'r broses adolygu blynyddol.

89. Bydd y cysylltiad gyda HMRC yn galluogi'r Comisiwn i gael gweld ystod ehangach o fathau gwahanol o incwm. Golyga hyn y bydd gan y cynllun amrywiadau newydd fwy o bwyslais ar geisio cael ffigyrau incwm heb ei ennill gwirioneddol, yn hytrach na dwyn ymlaen yr ymarfer presennol o gymhwyso symiau tybiannol yn seiliedig ar asedau a ffordd o fyw'r rhiant dibreswyl. O ganlyniad i hyn, ni fydd y seiliau amrywio ar gyfer ffordd o fwy sy'n anghyson gydag incwm a ddatgenir neu asedau yn cael eu dwyn ymlaen i'r cynllun.

90. **Cwestiwn Pedwar: Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i gael gwared ar y seiliau amrywio ar gyfer asedau a ffordd o fyw sy'n anghyson gydag incwm a ddatgenir, o ystyried yr agwedd newydd tuag at ddelio gydag incwm heb ei ennill?**

91. Y seiliau incwm ychwanegol fydd yn rhan o'r cynllun newydd yw:-

91.1. Rhiant dibreswyl gydag incwm heb ei ennill - pan fydd gan riant dibreswyl incwm heb ei ennill o £2,500 neu fwy'r flwyddyn. Mewn achosion ble na fydd gan HMRC y wybodaeth yma, neu ble nad yw ar gael am y flwyddyn dreth

ddiweddaraf, bydd gan rieni dibreswyl yr opsiwn o roi tystiolaeth o'u hincwm presennol.

91.2. Rhiant dibreswyl gydag incwm wythnosol gros – pan fydd y rhiant dibreswyl yn cael budd-dal sy'n golygu bod ganddynt atebolrwydd cyfradd unffurf neu gyfradd sero ond bod ganddynt incwm trethadwy ychwanegol o gyflogaeth neu hunangyflogaeth neu incwm o gynllun pensiwn sy'n o leiaf £100 yr wythnos. Mae hyn yr un fath, mwy neu lai, ag o dan gynllun 2003, fodd bynnag, rydym wedi symleiddio'r rheolau ar gyfer penderfynu sut i ystyried yr incwm ychwanegol. O dan y cynllun newydd bydd yr atebolrwydd ychwanegol sy'n berthnasol i'r incwm ychwanegol yn cael ei asesu drwy ddefnyddio'r rheolau cyfrifo safonol; bydd wedyn yn cael ei ychwanegu at yr atebolrwydd cyfradd unffurf sydd gan y rhiant dibreswyl yn barod oherwydd eu bod yn cael budd-dal.

91.3. Dargyfeirio incwm - pan fo'r rhiant dibreswyl wedi dargyfeirio incwm mewn modd afresymol a fyddai cyn hynny wedi cael ei ystyried yn y prif gyfrifiad. Mae hyn yr un fath, mwy neu lai, ag o dan gynllun 2003, ac felly'n dal i ystyried os yw rhiant dibreswyl wedi dargyfeirio incwm drwy dalu swm eithafol o gyfraniadau i mewn i gynllun pensiwn.

92. **Cwestiwn Pump: Beth yw eich sylwadau ar y seiliau newydd sy'n anelu at wneud y cynllun yn haws i fynd drwyddo, i'w ddeall a'i weinyddu ac i sicrhau, pan fo gan y rhiant dibreswyl incwm heb ei ennill sylweddol, y gellir ystyried hyn?**

93. Newid arall a gynigir yw na fydd cais am amrywiad bellach yn cael ei wrthod yn awtomatig oherwydd bod y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael Credyd Treth Gwaith ar hyn o bryd.

94. Mae'r cyswllt gyda HMRC hefyd yn golygu na fydd y Comisiwn bellach yn gorfod dibynnu ar y rhiant â gofal i ddarparu tystiolaeth o amgylchiadau'r rhiant dibreswyl. Yn hytrach bydd y Comisiwn yn defnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael, fel HMRC, i ategu'r ceisiadau hyn.

Materion eraill i'w nodi

Diffiniad o blentyn

95. Mae'r diffiniad o blentyn yn gymwys i bob plentyn yn y cynllun: plentyn cymwys, plentyn perthnasol arall, plentyn sy'n cael ei gynnal gan gytundeb teuluol a rhiant dibreswyl sydd yn blentyn.

96. Dylai'r diffiniad o blentyn fod yr un fath a'r un a ddefnyddir gan Fudd-dal Plant ar gyfer unigolyn hyd at eu pen-blwydd yn 20 mlwydd oed. Mae'r Ddeddf 2008 yn darparu ar gyfer cynnydd i derfyn oed plentyn o 19 i 20. Mae hyn yn adlewyrchu newid ar gyfer Budd-dal Plant a wnaed yn 2006.

97. Mae'r Rheoliadau yn darparu diffiniad o blentyn sy'n croesgyfeirio at yr un a ddefnyddir gan HMRC mewn deddfwriaeth Budd-dal Plant. Mae hyn helpu i ddelio gyda sefyllfaoedd ble mae plentyn sy'n 16-19 oed mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, y rhai hynny sy'n parhau mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch ac sy'n parhau i fod yn gymwys am Fudd-dal Plant.

98. Mae'r cysylltiad gyda Budd-dal Plant yn cynnig prawf syml i'r Comisiwn er mwyn helpu i benderfynu os yw plentyn yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Gofal cytbwys

99. Gwnaeth y Papur Gwyn 'system newydd o gynhaliaeth plant' drafod y sefyllfa ble mae gan gwpl mwy nag un plentyn ac mae o leiaf un plentyn yn byw gyda'r naill riant. Roedd yn ystyried p'un a i barhau gyda'r rheolau presennol o gael cyfrifiadau ac amserlenni talu ar wahân ar gyfer pob rhiant, neu os dylai'r symiau gael eu gwrth-osod yn erbyn ei gilydd.

100. O dan y cynllun newydd, bwriedir y bydd gan bob rhiant eu cyfrifiad eu hunain ond bydd y symiau yn cael eu gwrth-osod yn erbyn ei gilydd yn ystod y cam talu. Golyga hyn y bydd y rhiant sydd gan y cyfrifiad uchaf yn talu'r balans, tra bydd y rhiant arall yn talu dim.

101. Oherwydd bod y cyfrifiadau yn cael eu gwneud yn y ffordd arferol, nid yw'r Rheoliadau yma yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ar gyfer gwrth-osod taliadau yn erbyn ei gilydd. Bydd y rheolau yma'n ymddangos mewn rheoliadau eraill sy'n berthnasol i gasglu cynhaliaeth plant.

Plant perthnasol eraill

102. O dan y cynllun 2003, mae rhieni dibreswyl yn talu llai o gynhaliaeth plant os oes ganddynt blant yn byw gyda hwy yn eu teulu presennol a'u bod hwy neu eu partneriaid yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer. Mae cyfraith cynnal plant yn disgrifio'r plant yma fel 'plant perthnasol eraill'.

103. Yn y sefyllfa yma, byddwn yn gwneud didyniad o incwm y rhiant dibreswyl ar gyfer y plant perthnasol eraill cyn cyfrifo cynhaliaeth ar gyfer y plant cymwys. O dan y cynllun 2003, mae'r un didyniad ar gyfradd ganrannol yn gymwys i'r ddau, hynny yw 15 y cant ar gyfer un plentyn, 20 y cant ar gyfer dau o blant a 25 y cant ar gyfer tri neu fwy o blant. Golyga hyn bod y cyfrifiad ar gyfer y plant cymwys yn cael ei wneud o incwm sydd wedi ei leihau yn barod ac yn adlewyrchu'r ffaith bod gan rieni dibreswyl sydd gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol yma lai o incwm i gynnal eu plant sy'n byw ar wahân iddynt.

104. O dan y cynllun newydd mae'r cyfraddau canrannol wedi cael eu lleihau i adlewyrchu'r newid o ddefnyddio incwm net i ddefnyddio incwm gros (sy'n uwch) gyda'r bwriad o gynhyrchu atebolrwydd sy'n debyg i'r rhai a gaiff eu cyfrifo o dan gynllun 2003. Mae'r rhain yn 12 y cant am un plentyn, 16 y cant am ddau o blant a 19 y cant am dri phlentyn neu fwy. Caiff y canrannau hyn eu gosod allan yn y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008.

105. Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn glir bod rhaid cynnwys bob plentyn sy'n cael ei effeithio arno gan yr asesiad cynhaliaeth wrth gyfrifo atebolrwydd cynhaliaeth y rhiant dibreswyl. Ond mae'n hanfodol bod y cynllun i'w weld yn trin pob plentyn a gynhelir gan riant dibreswyl yn deg. Ar adegau mae'r rheolau presennol wedi cael eu beirniadu am beidio â gwneud hynny. Mae hyn oherwydd eu bod yn arwain at ostyngiad sylweddol i incwm ar gyfer y plentyn perthnasol arall yn hytrach na'r swm atebolrwydd ar gyfer plentyn cymwys. Mae'r Llywodraeth wedi gwrando ar sylwadau ac yn argymell lleihau'r gostyngiadau canrannol a gymhwysir ar gyfer plant perthnasol eraill er mwyn agosáu at gyfartalu'r sefyllfa rhwng plant mewn teuluoedd cyntaf ac ail deuluoedd

106. Mae'r Tabl canlynol yn cymharu'r drefn o dan reoliadau cynllun 2003, drwy ddefnyddio canrannau Deddf 2008 a chymhwyso enghraifft o'r gostyngiadau a argymhellir gan ddefnyddio 11 y cant ar gyfer un plentyn perthnasol arall.

Sefyllfa - mae John yn ennill incwm wythnosol gros o £400 (£317 net) - mae ganddo un plentyn cymwys (Louise) ac un plentyn perthnasol arall (Peter)

	Cynllun 2003	**Deddf 2008**	**Argymhellir**
Incwm	£317	£400	£400
1.Gostyngiad mewn incwm ar gyfer Peter	15%	12%	11%
2.Swm y gostyngiad mewn incwm ar gyfer Peter	£47.55	£48	£44
3.Incwm a ddwynir ymlaen	£269.45	£352	£356
Cyfrifiad cynhaliaeth plant			
4.Incwm ar gael	£269.45	£352	£356
5.Canran o'r gynhaliaeth	15%	12%	12%
6.Swm sy'n daladwy ar gyfer Louise	£40.41	£42.24	£42.72
Gwahaniaeth yn y symiau rhwng 2 a 6	**£7.14**	**£5.76**	**£1.28**

107. **Cwestiwn Chwech: Ydych yn cytuno y dylai cyfraddau canrannol a gymhwysir ar gyfer plant perthnasol eraill gael eu gostwng er mwyn sicrhau bod plant mewn teulu cyntaf ac ail deuluoedd yn cael eu trin yn fwy teg?**

Cynyddu'r gyfradd unffurf

108. Cyflwynwyd y gyfradd unffurf o £5 yng nghynllun 2003 i danseilio'r egwyddor y dylai pob rhiant dibreswyl ar incwm isel dalu rhywbeth tuag at gynhaliaeth eu plant tra'n cydnabod nad oes ganddynt yr un modd ag eraill i wneud hynny. Fe ddarparodd y weinyddiaeth flaenorol, yn y Ddeddf 2008, i gynyddu hyn i £7 o dan y cynllun newydd.

109. Mae'r Llywodraeth yn ystyried cynyddu'r gyfradd unffurf o £7. Mae hyn i bwysleisio'r egwyddor y dylai pob rhiant gynnal eu plant pan fo ganddynt y modd i wneud hynny, ac mae'n rhaid i'r symiau a delir ymddangos yn ystyrlon.

110. Mae'r gyfradd unffurf yn gymwys i rieni dibreswyl mewn dau amgylchiad penodol: (i) ble maent ar restr o fudd-daliadau penodedig (budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd neu ddim) sydd gyda dyfarniadau gwahanol; a (ii) ble nad ydynt yn derbyn yr un o'r budd-daliadau hyn ond bod ganddynt incwm wythnosol rhwng £7 a £100.

111. Swm penodol yw'r gyfradd unffurf sydd wedi ei seilio ar yr amgylchiadau uchod, tra bod rhiant dibreswyl sydd ddim ar y gyfradd unffurf yn cael eu hasesu drwy gymhwyso canran i'w union incwm. Golyga hyn y gallai rhieni dibreswyl sydd mewn swyddi gydag incwm isel fod yn talu cyfran llawer uwch o'u hincwm gwario ar ôl costau tai na rhieni dibreswyl sydd ar y gyfradd unffurf. Byddai cynyddu'r gyfradd unffurf yn lleihau'r agendor yma.

Enghraifft

Sefyllfa - Rhiant dibreswyl gydag un plentyn cymwys

Achos un

- Rhiant dibreswyl ar Lwfans Ceisio Gwaith o £67.50 yr wythnos.
- Atebolrwydd cyfradd unffurf o £7 yr wythnos = 10.4% o'u hincwm gwario net ar ôl costau tai (costau tai yn dybiadwy).

Achos dau

- Rhiant dibreswyl yn gweithio 36 awr neu fwy'r wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol o £213; incwm net ar ôl costau tai yw £116.
- Atebolrwydd cyfradd sylfaenol o £26 = 22% o'u hincwm gwario net.

112.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu y gall cynnydd mewn atebolrwydd tra'n cael budd-dal helpu i hwyluso'r newid i mewn i waith drwy leihau'r agendor rhwng atebolrwydd rhywun sydd allan o waith a rhywun sydd mewn gwaith.

113. **Cwestiwn Saith: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gynyddu'r gyfradd unffurf?**

Y Rheoliadau (Rheolau Cyfrifo Newydd) (Diwygio Canlynol ac Amrywiol) Cynnal Plant 2012

114. Yn bennaf, mae'r Rheoliadau drafft yma yn cynnwys mân newidiadau technegol o ganlyniad i'r Rheoliadau Cyfrifo. Mae'r ddwy ddarpariaeth ganlynol yn fwy sylweddol.

Dyletswydd i roi gwybod am gynnydd i incwm presennol

115. Mae'r ddarpariaeth yma yn Rheoliad 3 yn gosod gofyniad ar riant dibreswyl gydag atebolrwydd cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm presennol i roi gwybod am unrhyw gynnydd i incwm sy'n 25 y cant neu fwy. Y bwriad yw osgoi newidiadau cyflogaeth tymor byr, dros dro neu dymhorol sy'n arwain at newidiadau tymor hir i gynhaliaeth plant.

116. Gall rhiant dibreswyl sy'n methu â chydweithredu gyda'r gofyniad hwn gael eu herlyn. Fe wnaeth diwygiad i adran 14A o'r Ddeddf 1991 (a wnaed gan adran 55 o'r Ddeddf Diwygio Lles 2009) ychwanegu at y troseddau o dan yr adran honno - 'y methiant i gydweithredu gyda rheoliadau sy'n gofyn i berson sy'n atebol i wneud taliadau cynhaliaeth roi gwybod am newid mewn amgylchiadau'. Am y rheswm hwn, bydd y ddyletswydd ar rieni dibreswyl gyda chyfrifiad yn seiliedig ar incwm presennol yn cael ei hyrwyddo yn glir a byddant yn cael eu rhybuddio am ganlyniadau methu â chydweithredu.

117. Dylai rhieni dibreswyl gydag incwm presennol, sydd yn dechrau swydd newydd, ac sy'n cael codiad cyflog neu newid mewn oriau gwaith sy'n arwain at gynnydd incwm o 25 y cant, roi gwybod i'r Comisiwn o fewn saith diwrnod. Hefyd, dylai rhieni dibreswyl roi gwybod i'r Comisiwn os byddant yn cael nifer o daliadau olynol sydd fel taliadau 'unigol' yn 25 y cant yn fwy na'r ffigwr sydd mewn grym ar gyfer incwm presennol.

118. **Cwestiwn Wyth: Ydych yn cytuno gyda chynnig y Comisiwn i orfodi rhieni dibreswyl gydag atebolrwydd cynhaliaeth sy'n seiliedig ar incwm presennol i roi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n cynyddu eu cyflog?**

119. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gymwys i rieni dibreswyl hunangyflogedig neu'r rhai hynny sy'n cael taliadau bonws neu gomisiwn ar hap. Mae hyn am nad oes gan rieni hunangyflogedig syniad clir o faint yw eu hincwm hyd nes byddant yn cyrraedd diwedd blwyddyn dreth neu gyfnod cyfrifo. Mae'r eithriad hefyd yn gymwys i rieni dibreswyl gyda chyfrifiad cynhaliaeth sy'n cynnwys elfen o incwm heb ei ennill.

120. **Cwestiwn Naw: Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i wneud y gofyniad hwn yn gymwys dim ond i rieni cyflogedig (hynny yw, nid i rieni sy'n hunangyflogedig neu sydd ag elfen o incwm heb ei ennill)?**

121. Cynigir rhoi saith diwrnod i alluogi rhieni dibreswyl i roi gwybod am y newidiadau hyn a bydd y newid yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad pryd y digwyddodd, waeth pryd byddant yn rhoi gwybod am y newid. Mae hyn i fod i

annog rhieni dibreswyl i gydweithredu gyda'r ddyletswydd a rhoi gwybod am eu newidiadau mewn da bryd. Mae profiad blaenorol wedi dangos bod rhieni dibreswyl yn llai tebygol o roi gwybod am gynnydd mewn incwm nag ydynt o unrhyw ostyngiad mewn incwm. Bydd y gofyniad i roi gwybod am newid o'r fath yn ceisio datrys y broblem hon fel bod yr agwedd hon ar y cynllun newydd yn gweithredu yn fwy teg i'r ddau riant.

Amserlennu taliadau cynhaliaeth

122. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r Comisiwn i benodi pryd dylai taliadau cynhaliaeth plant gael eu gwneud a pha mor aml, gan ystyried yr amgylchiadau a'r dewisiadau a nodwyd gan y rhiant dibreswyl. Mae'n well gan lawer o rieni dibreswyl dalu bob mis calendr, er mwyn cyd-fynd gyda phryd cânt eu henillion. Nid yw bob tro'n syml i drefnu bod taliadau yn cyd-fynd gydag atebolrwydd wythnosol a gall hyn fod yn aneglur i rieni.

123. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi i'r hysbysiad cyfrifiad cynhaliaeth a anfonir i'r ddau riant ddangos swm blynyddol yn hytrach na swm wythnosol. Pan fydd y taliadau yn rhai misol, bydd yr amserlen taliadau yn dangos deuddeg swm misol cyfartal. Felly bydd yn llawn haws i'r rhiant dibreswyl allu gweld pa daliadau sydd angen eu gwneud, ar ba ddyddiad, a sut maent yn berthnasol i'r atebolrwydd cynhaliaeth. Bydd hyn yn hwyluso gwneud taliadau drwy ddebyd uniongyrchol gan y bydd y symiau'r un faint bob mis. Bydd symiau blynyddol yn cael eu haddasu os bydd newid mewn amgylchiadau addas yn digwydd yn ystod y flwyddyn, gan achosi'r angen i atebolrwydd wythnosol newydd gael ei gyfrifo.

Eich sylwadau a sut byddant o werth i ni

124. Mae'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r ffaith bod strwythur deddfwriaethol y cynllun cynhaliaeth plant newydd yn gyfuniad o ddarpariaethau newydd fel y gosodir yn y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 a deddfwriaeth sydd wedi cael ei chadw o fewn y Ddeddf Cynnal Plant 1991. Felly, mae'r pecyn rheoliadau hwn yn cynnwys rheolau newydd sy'n ategu darpariaethau neu bwerau a osodwyd allan yn y Ddeddf 2008 a rheolau presennol sydd wedi dod drosodd gydag ychydig neu dim newid o reoliadau ar gyfer y cynlluniau sy'n bodoli'n barod. Y rheolau hyn a'r polisi sy'n eu tanseilio ydy'r rhai rydym yn ymgynghori gyda chi amdanynt yn yr ymarfer hwn, a dyma'r rheolau y byddwn yn gwerthfawrogi eich sylwadau amdanynt.

125. Byddwn yn gwerthfawrogi eich sylwadau ar y newidiadau sydd wedi eu hamlinellu yn y crynodeb a'r cwestiynau penodol am y Rheoliadau a'r polisi sy'n eu tanseilio. Mae'r meysydd sydd angen sylwadau a'r cwestiynau wedi eu rhestru isod. Byddwch yn gweld bod rhai o'r cwestiynau yn berthnasol i eglurhad manwl sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad A ac y byddwch angen edrych yn yr adran honno er mwyn gallu ymateb yn llawn.

Cwestiynau

Gwneud y cyfrifiad	
Cwestiwn Un	Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i dynnu myfyrwyr o'r achosion cyfradd sero a chyfrifo'r atebolrwydd yn seiliedig ar eu hincwm wythnosol gros?
Cwestiwn Dau	Ai tybio faint o rannu gofal sydd ar achos yw'r ffordd gywir i osgoi rhai o'r problemau ymarferol presennol sy'n ymwneud â chyfrifo rhannu gofal?
Newid cyfrifiad	
Cwestiwn Tri	Ydych yn credu bod y gwiriad cyfnodol o incwm yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adolygu?
Amrywiadau	
Cwestiwn Pedwar	Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i gael gwared ar y seiliau amrywio ar gyfer asedau a ffordd o fyw yn anghyson gydag incwm a ddatgenir, o ystyried yr agwedd newydd tuag at ddelio gydag incwm heb ei ennill?
Cwestiwn Pump	Beth yw eich sylwadau ar y seiliau newydd sy'n anelu at wneud y cynllun yn haws i fynd drwyddo, i'w ddeall a'i weinyddu ac i sicrhau, pan fo gan y rhiant dibreswyl incwm heb ei ennill sylweddol, y gellir ystyried hyn?
Materion eraill i'w nodi	
Cwestiwn Chwech	Ydych yn cytuno y dylai cyfraddau canrannol a gymhwysir ar gyfer plant perthnasol eraill gael eu gostwng er mwyn sicrhau bod plant mewn teulu cyntaf ac ail deuluoedd yn cael eu trin yn fwy teg?
Cwestiwn Saith	Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gynyddu'r gyfradd unffurf?
Cwestiwn Wyth	Ydych yn cytuno gyda chynnig y Comisiwn i orfodi rhieni

	dibreswyl gydag atebolrwydd cynhaliaeth sy'n seiliedig ar incwm presennol i roi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n cynyddu eu cyflog?
Cwestiwn Naw	Beth ydych yn ei feddwl o'r cynnig i wneud y gofyniad hwn yn gymwys dim ond i rieni cyflogedig (hynny yw, nid i rieni sy'n hunangyflogedig neu sydd ag elfen o incwm heb ei ennill)?
Atodiad C	
Cwestiwn Deg	Ydych yn credu y dylai'r symiau a ddyfernir drwy Benderfyniad Cynhaliaeth Ddiffyg gael eu cynyddu gyda chwyddiant?

Strwythur y rheoliadau cyfrifo cynhaliaeth

Rhan 1: Cyffredinol

126. Mae'r Rhan hon yn delio gyda'r dechreuad, dehongliad ac egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â gweithdrefnau a sut caiff cynhaliaeth ei chyfrifo.

127. Mae llawer o'r ymadroddion a ddiffinnir yn y Rhan hon yn deillio o ddeddfwriaeth treth incwm. Mae hyn oherwydd bod yr incwm wythnosol gros, y cyfeirir ato yn y cynllun newydd er mwyn cyfrifo cynhaliaeth, yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth a geir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Mae diffiniad "blwyddyn dreth ddiweddaraf sydd ar gael" yn Rheoliad 4 yn pennu'r flwyddyn dreth y bydd HMRC yn cymryd gwybodaeth ar gais gan y Comisiwn. Dyma'r flwyddyn dreth ddiweddaraf, allan o'r chwech olaf, sydd gan HMRC gofnod llawn o incwm y rhiant dibreswyl ar ei chyfer, boed o ffurflen hunanasesiad neu o ddata Talu Wrth Ennill (PAYE).

128. Bwriedir i'r Rheoliadau Eraill yn Rhan 1 adlewyrchu, ar ffurf symlach, yr egwyddor a welir yn y rheoliadau presennol. Er enghraifft, mae'n rhaid i wybodaeth sy'n berthnasol i "benderfyniad cyfrifiad" (sef y penderfyniad gwreiddiol o dan adran 11 o Ddeddf 1991 neu benderfyniad adolygu neu ddiwygio) fod yn wybodaeth sy'n gymwys o'r dyddiad pan ddaw'r penderfyniad i rym. Mae hyn yn disodli'r syniad o "wythnos berthnasol".

Rhan 2: Cais am Gyfrifiad Cynhaliaeth

129. Mae'r Rhan hon yn delio gyda'r ceisiadau am gyfrifiad cynhaliaeth ac yn disodli darpariaethau yn Rhan II o'r Rheoliadau Gweithdrefnau Cyfrifo Cynhaliaeth 2000.

Rhan 3: Gwneud Penderfyniadau

130. Mae'r Rhan hon yn cwmpasu nifer o faterion sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar swm yr atebolrwydd cynhaliaeth a'r apeliadau yn erbyn y penderfyniadau hynny. Maent yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwneud y penderfyniad cyfrifiad cynhaliaeth cyntaf o dan adran 11 o Ddeddf 1991 a phenderfyniadau adolygu a diwygio o dan adrannau 16 a 17 o'r Ddeddf honno.

Maent hefyd yn cynnwys gofyniadau sy'n berthnasol i hysbysu'r penderfyniadau hynny.

131. Mae'r Rhan hon yn disodli Rhannau VI a VII o'r Rheoliadau Cynhaliaeth Plant (Gweithdrefn Cyfrifo Cynhaliaeth) 2000 a Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynhaliaeth Plant (Penderfyniadau ac Apeliadau)1999 sy'n berthnasol i gynhaliaeth plant. Mae'r darpariaethau ym Mhennod 4 yn berthnasol i ddiweddaru'r ffigwr incwm a ddefnyddir yn y cyfrifiad cynhaliaeth ac yn hollol newydd. Mae penderfyniadau sy'n berthnasol i effaith amrywiad ar atebolrwydd cynhaliaeth hefyd yn cael ei drafod yn y Rhan hon (ac hefyd yn Rhan 5).

Rhan 4: Y Rheolau Cyfrifo Cynhaliaeth

132. Mae'r Rhan hon yn ategu'r rheolau ar gyfer cyfrifo cynhaliaeth a osodir allan yn Atodlen 1 i Ddeddf 1991. Mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer achosion arbennig a chyfraddau ar gyfer penderfyniadau cynhaliaeth ddiffyg.

133. Mae'r Rhan hon yn disodli'r Rheoliadau (Cyfrifo Cynhaliaeth ac Achosion Arbennig) Cynnal Plant 2000. Mae rhai darpariaethau yn newydd ac mae eraill yn ailadrodd y darpariaethau presennol. Mae cynnwys Pennod 1, sy'n delio gyda chyfrifo incwm wythnosol gros, yn disodli'r atodlen ar gyfer y rheoliadau hynny ac yn hollol newydd.

Rhan 5: Amrywiadau

134. Mae'r Rhan hon yn gosod allan y darpariaethau sy'n ymwneud ag amrywio'r rheolau ar gyfer cyfrifo cynhaliaeth. Mae'n disodli'r Rheoliadau (Amrywiadau) Cynhaliaeth Plant 2000. Mae llawer o gynnwys y rheoliadau hynny, gan gynnwys gweithdrefnau ac effaith amrywio ar y cyfrifiad cynhaliaeth wedi cael ei gadw, ond wedi ei ailstrwythuro a'i wneud yn fwy syml. Mae'r seiliau ar gyfer costau arbennig rhieni dibreswyl wedi cael eu hatgynhyrchu gan fwyaf. Fodd bynnag, mae'r amrywiadau yn ymwneud â rhieni dibreswyl sydd ag incwm ychwanegol wedi newid yn sylweddol.

Rhan 6: Ystyr Termau yn Neddf 1991

135. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â rhai o'r diffiniadau cyffredinol o'r termau a ddefnyddir yn Neddf 1991. Maent yn ailosod y darpariaethau o fewn Rheoliadau (Gweithdrefn Cyfrifo Cynhaliaeth) a Rheoliadau (Cyfrifiad Cynhaliaeth ac Achosion Arbennig) Cynhaliaeth Plant 2000.

Atodiad

136. Mae'r Atodlen yn cynnwys rhai darpariaethau trefniadol sy'n berthnasol i apeliadau i'r Tribiwnlys Rheng Gyntaf. Mae'r rhain yn disodli'r darpariaethau o fewn Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynhaliaeth Plant (Penderfyniadau ac Apeliadau) 1999.

Atodiad A - Rhestr o Fudd-ddeiliaid

- 4Children
- Action for Children (Gweithredu dros Blant)
- Association of Director's of Children's Services
- Barnardos
- The Centre for Separated Families
- The Centre for Social Justice
- Children Need Families
- The Child Poverty Action Group
- The Children's Society
- Children's Workforce Development Council
- Cyngor Ar Bopeth
- Citizen's Advice Scotland
- CIVITAS
- Demos
- Family and Parenting Institute
- Family Links
- Family Lives
- Families Need Fathers
- Families Need Fathers Scotland
- The Fatherhood Institute
- Federation of Small Businesses
- Fife Gingerbread
- Lindsays
- Gingerbread
- Grandparents Plus
- The Institute of Payroll Professionals
- The Law Society
- The Law Society of Scotland
- The Low Income Tax Reform Group
- ManKind
- MATCH
- Moneywatchers
- MumsNet
- NACSA
- National Family Mediation
- NetMums
- One Parent Families Scotland
- One Plus One
- Parenting UK
- Parentline Plus
- Payroll Alliance
- Policy Exchange
- Relate
- Relationships Scotland
- Refuge

- Resolution
- Rights of Women
- Save the Children
- Scoop Aid
- The Tavistock Centre for Couple Relationships
- Women's Aid
- Women's Health and Equality Consortium

Atodiad B – Ein cod ymarfer wrth ymgynghori

1. Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori – Government Code of Practice on Consultation (BIS). Y saith maen prawf ymgynghori yw:

   1.1. **Pryd i Ymgynghori**. Dylai ymgynghori ffurfiol gael ei gynnal ar adeg pan fo cyfle i ddylanwadu ar y canlyniad.

   1.2. **Hyd ymarfer ymgynghori**. Dylai Ymgynghoriadau ond barhau am o leiaf 12 wythnos, ond dylid ystyried amser hirach pan fo hynny'n ymarferol a synhwyrol.

   1.3. **Eglurder, ystod ac effaith**. Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, beth sy'n cael ei gynnig, y gallu i ddylanwadu, y costau disgwyliedig a budd y cynigion.

   1.4. **Hygyrchedd yr ymgynghoriad**. Dylai ymarferion ymgynghori gael eu llunio i fod yn hygyrch i, ac wedi eu targedu'n glir at y bobl hynny y mae'r ymarferiad wedi ei lunio ar eu cyfer.

   1.5. **Baich ymgynghori**. Mae'n hanfodol cadw'r baich ymgynghori i gyn lleied â phosib er mwyn sicrhau bod ymgynghori yn effeithiol ac i gael y rhai hynny y gofynnir iddynt gymryd rhan i wneud hynny.

   1.6. **Ymateb i ymarferion ymgynghori**. Dylai'r ymatebion i ymgynghoriad gael eu hasesu yn ofalus a dylid rhoi adborth eglur i'r ymatebwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

   1.7. **Y gallu i ymgynghori**. Dylai swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori geisio cael cyngor am sut i gynnal ymgynghoriad effeithiol, a rhannu'r hyn maent wedi ei ddysgu o'r profiad.

Atodiad C – Eglurhad manwl o feysydd mwy cymhleth

Ceisiadau am gynhaliaeth plant statudol

1. Yn y cynllun newydd, rhaid i geisiadau a wneir gan riant â gofal gynnwys digon o wybodaeth i'r Comisiwn allu cydnabod pwy yw'r rhiant dibreswyl[4]. Unwaith bydd gan y Comisiwn yr holl wybodaeth sydd ei hangen gan yr ymgeisydd, y cam nesaf fydd i roi gwybod i'r rhiant arall am y cais ac i'r cais symud ymlaen i'r cam cyfrifo – oni bai bod achos lluosog.

2. Cais lluosog yw ble mae mwy nag un person yn gwneud cais i'r Comisiwn am gynhaliaeth plant mewn perthynas â'r un plentyn cymwys. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid i'r Comisiwn fynd ymlaen gydag un cais yn unig (er gall ddefnyddio gwybodaeth gan fwy nag un cais os bydd gwneud hynny'n ei helpu i wneud cyfrifiad cynhaliaeth).

3. Mae gan gynlluniau presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant gyfres o reolau cymhleth sy'n adlewyrchu ystod o amgylchiadau a allai godi er mwyn penderfynu pa gais caiff eu cymryd ymlaen. Wrth gadw at y nod o sicrhau bod y cynllun yn symlach i'w ddeall a gweithredu, bydd gan y cynllun newydd set o reolau symlach i benderfynu pa gais sy'n cymryd blaenoriaeth a bydd y Comisiwn yn delio gyda hyn.

4. Rydym yn parhau gyda'r rheol a osodwyd yn y Ddeddf Cynnal Plant 1991 sy'n dweud fod cais a wnaed gan berson gyda chyfrifoldeb bod yn rhiant am blentyn cymwys yn cael blaenoriaeth dros gais gan ymgeisydd sydd heb gyfrifoldeb. Ond ar gyfer achosion eraill, bydd rheolau blaenoriaethu yn gweithredu fel a ganlyn:-

   4.1. Pan fydd plentyn 12 mlwydd oed neu'n hŷn yn Yr Alban, mae ganddynt hawl i wneud eu cais eu hunain am gynhaliaeth statudol. Fodd bynnag, mae cais gan riant neu riant â gofal yn cymryd blaenoriaeth dros gais o'r fath gan blentyn[5].

   4.2. Mewn unrhyw gais arall, mae cais cynharach yn cymryd blaenoriaeth dros gais diweddarach[6].

5. Unwaith bydd y Comisiwn yn penderfynu symud y cais ymlaen ac wedi rhoi gwybod i'r rhiant dibreswyl, bydd yn gwneud cyfrifiad er mwyn sefydlu atebolrwydd cynhaliaeth. Gelwir y dyddiad o bryd bydd y cyfrifiad dod yn effeithiol yn ddyddiad effeithiol cychwynnol.

6. O dan y cynllun cynhaliaeth plant presennol, yn ddibynnol ar amgylchiadau penodol yr achos, mae sawl ffordd o bennu'r dyddiad effeithiol cychwynnol. I wneud y broses yn symlach a hawdd i'w deall mae bwriad i leihau'n sylweddol

[4] Rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012
[5] Rheoliad 10(2)(a) o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012
[6] Rheoliad 10(2)(b) o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012

y nifer o ffyrdd o bennu'r dyddiad effeithiol. Yn y cynllun newydd, y dyddiad effeithiol cychwynnol ar gyfer atebolrwydd cynhaliaeth fydd y dyddiad pryd y rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o'r cais i'r rhiant dibreswyl[7].

Gwneud y cyfrifiad

Incwm wythnosol gros

7. Mae HMRC yn dal data incwm fel incwm gros. Roedd y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008[8] yn adlewyrchu hyn trwy ddarparu bod cyfrifiadau cynhaliaeth plant yn seiliedig ar incwm wythnosol gros a bod y rheoliadau yn rhoi'r manylder am beth sydd wedi ei gynnwys mewn incwm wythnosol gros. Ymhellach i hyn, bydd y ffigwr a ddarperir yn ffigwr blynyddol. Fel y bo'n ofynnol gan y Ddeddf Cynnal Plant 1991, caiff hyn ei newid i swm wythnosol er mwyn cyfrifo atebolrwydd wythnosol[9].

Sut mae HMRC yn casglu gwybodaeth incwm ac yn penderfynu pryd i'w basio ymlaen i'r Comisiwn

8. Er bod gwybodaeth incwm yn mynd i HMRC o nifer o ffynonellau, y ffynonellau mwyaf cynhwysfawr yw:-

    8.1. Ffurflenni treth Talu wrth Ennill (PAYE), a gwblheir yn flynyddol gan gyflogwyr ar ran eu gweithwyr unigol.

    8.2. Ffurflenni treth hunanasesiad, a gwblheir bob blwyddyn gan drethdalwyr penodol, gan gynnwys pobl hunangyflogedig, cyfarwyddwyr cwmnïau a llawer o'r rheini sydd â sefyllfaoedd ariannol mwy cymhleth.

9. Mae'r ffurflenni treth hyn yn darparu manylion incwm unigolyn i HMRC ar gyfer blwyddyn dreth benodol ac yn galluogi HMRC i sicrhau bod y swm cywir o dreth sy'n ddyledus ar yr incwm yna wedi cael ei thalu. Cytunwyd y bydd HMRC ond yn pasio ymlaen gwybodaeth incwm sydd wedi dod o'r ddwy ffynhonnell yma'n unig i'r Comisiwn.

10. Mae gan reolau HMRC derfynau amser gwahanol ar gyfer ffeilio ffurflenni treth gwahanol gyda hwy. Mae HMRC wedi cytuno y byddant ond yn pasio gwybodaeth ymlaen mewn ymateb i gais gan y Comisiwn unwaith y byddant yn weddol fodlon bod ganddynt gofnod cyflawn ar gyfer y flwyddyn dreth benodol sydd o dan sylw[10]. Fel arfer, golyga hyn y bydd gwybodaeth ar gyfer blwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill o ffurflen dreth hunanasesiad ar gael i'r Comisiwn erbyn y mis Chwefror neu fis Mawrth yn y flwyddyn ganlynol neu'n gynharach mewn achosion o wybodaeth incwm o ddata TWE.

[7] Rheoliad 12 o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012
[8] Paragraff 10(1) o Atodlen 1 y Ddeddf Cynnal Plant 1991, fel diwigiwyd gan Paragraff 2 o Atodlen 4 o'r Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008
[9] Atodlen 1 y Ddeddf Cynnal Plant 1991
[10] Rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012

Pa wybodaeth incwm gaiff ei defnyddio gan y Comisiwn er mwyn sefydlu cynhaliaeth plant?

11. Bydd HMRC ddim ond yn rhoi gwybodaeth incwm i'r Comisiwn pan ofynnir amdani fesul achos a gallai'r wybodaeth honno fod yn angenrheidiol er mwyn gwneud neu ddiweddaru cyfrifiad cynhaliaeth. Ar gyfer bob achos, bydd HMRC yn rhoi un ffigwr ar gyfer yr incwm trethadwy perthnasol am y flwyddyn ddiweddaraf o'r chwe blwyddyn dreth ddiwethaf sydd ganddynt wybodaeth gyflawn ar eu cyfer pan fo'r Comisiwn yn gwneud y cais. Disgrifir hyn fel incwm hanesyddol[11]. Bydd y Comisiwn yn gallu cael dadansoddiad o'r ffigwr hwnnw pan fo angen er mwyn helpu i ddatrys ymholiad gan riant am gyfrifiad cynhaliaeth. Er mwyn cwrdd ag egwyddorion diogelu data, ni fydd y dadansoddiad hwnnw'n cael ei basio ymlaen at y rhiant â gofal.

12. Egwyddor allweddol sy'n cwmpasu defnyddio gwybodaeth incwm gan HMRC yw y dylai olygu bod y rhai hynny sy'n hunanasesu a'r rhai hynny sy'n mynd drwy'r system TWE yn cael eu trin yn gyfartal. Fe wnaeth yr angen i gyflawni hyn arwain i'r Llywodraeth ddod i'r casgliad na ddylai pob elfen o incwm trethadwy a delir gan HMRC gael ei ystyried wrth gyfrifo cynhaliaeth plant.

13. Gallai'r ffigwr incwm trethadwy am flwyddyn dreth a geir o ffurflenni treth gynnwys ystod eang o incwm, gan gynnwys:

    13.1. Enillion gweithiwr (gan gynnwys goramser a thaliadau bonws).
    13.2. Taliadau treuliau trethadwy gweithwyr ac unrhyw fuddiannau yn lle tâl.
    13.3. Incwm masnachu person hunangyflogedig.
    13.4. Taliadau o gynlluniau pensiwn galwedigaethol neu bersonol.
    13.5. Budd-daliadau trethadwy nawdd cymdeithasol.
    13.6. Incwm buddsoddiadau – fel llog cyfrif banc a thaliadau difidend.
    13.7. Incwm o dir neu eiddo.

14. Gall rhai o'r elfennau hyn fod yn symiau net. Er enghraifft, pan fydd gweithiwr yn gwneud cyfraniadau i gynllun pensiwn cyflogwr sy'n gymwys i ostyngiad treth, bydd y cyflogwr yn gosod y cyfraniadau hyn yn erbyn cyflog trethadwy llawn y gweithiwr a chynnwys y ffigwr net ar y ffurflen dreth TWE.

15. Mae cyfran lai o drethdalwyr yn cwblhau ffurflenni treth hunanasesiad nag sy'n destun ffurflenni treth TWE. Fel arfer nid yw HMRC angen i drethdalwyr gwblhau a dychwelyd ffurflen dreth os yw eu harian yn gymharol syml neu resymol neu os yw'n debygol y byddai unrhyw dreth incwm sy'n ddyledus ar eu hincwm wedi cael ei chasglu o'r ffynhonnell. Ond os bydd unigolyn wedi cwblhau ffurflen dreth hunanasesiad, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fwy cynhwysfawr am incwm trethadwy na ffurflen dreth TWE, gyda ffocws yr olaf ar enillion trethadwy. Felly, mae HMRC wedi cytuno ble ceir y ddau fath o ffurflen dreth ar gyfer rhiant dibreswyl am yr un flwyddyn dreth, bydd y ffigwr incwm a ddarperir i'r Comisiwn yn cael ei gymryd o'r ffurflen dreth hunanasesiad[12].

[11] Rheoliad 35 o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012
[12] Rheoliad 36(5) o'r Rheoliadau Cyfrifo Cynhliaeth Cynnal Plant 2012

16. Bydd gan rhai trethdalwyr incwm trethadwy ond eu bod heb lenwi ffurflen dreth hunanasesiad. Er enghraifft, nid yw'n ofynnol, yn ôl rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) i unigolyn gwblhau ffurflen dreth hunanasesiad os yw ei incwm o gynilion treth yn llai na £10,000 y flwyddyn.

17. Er enghraifft, gallai un rhiant dibreswyl gael cyfanswm incwm trethadwy o £35,000, wedi ei wneud o £20,000 o enillion a £15,000 o gynilion. Yn yr achos hwn, byddai'r cyfanswm o £35,000 wedi cael ei gydnabod yn y ffurflen dreth hunanasesiad. Ond, gallai incwm rhiant dibreswyl arall fod yn £35,000 hefyd, wedi ei wneud o £30,000 o enillion a £5,000 o incwm o gynilion. Ni fyddai'n ofynnol i'r rhiant dibreswyl hwnnw lenwi ffurflen dreth hunanasesiad, ac felly'r unig ffurflen wedi ei chwblhau fyddai ffurflen Talu wrth Ennill (PAYE) y cyflogwr a byddai honno'n dangos ffigwr o £30,000.

18. Dylid ystyried manteision defnyddio ffigyrau incwm wedi cytuno arnynt gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) (ac a fydd yn cael eu hadnabod gan rieni dibreswyl) yn erbyn yr annhegwch y bydd rhai rhieni yn ei wynebu. Yn enwedig pan fo defnyddio gwybodaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn achosi gwahaniaethau mawr rhwng achosion. Rydym o'r farn mai'r olaf yw'r un pwysicaf. O ganlyniad, er mwyn sicrhau bod bob achos yn cael ei drin yn gyfartal, dylai incwm wythnosol gros y rhiant dibreswyl a ddefnyddir o fewn y prif gyfrifiad gynnwys yr elfennau hynny o incwm trethadwy sy'n cyfateb fwyaf i enillion.[13] Sef:

    18.1. Enillion trethadwy a buddiannau ar gyfer gweithwyr.
    18.2. Incwm masnachu trethadwy ar gyfer yr hunangyflogedig.
    18.3. Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy; hynny yw Budd-dal Anabledd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau.
    18.4. Taliadau o gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol.

19. Mae newidiadau eraill yn codi oherwydd y gwahanol wybodaeth a ddelir gan Talu Wrth Ennill (PAYE) a ffurflenni treth hunanasesiad. Er enghraifft, dylid rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ffurflenni hunanasesiad. Ar gyfer rhai o'r budd-daliadau hyn, er enghraifft, Lwfans Ceisio Gwaith trethadwy, mae'n rhaid anfon ffurflen TWE blynyddol at HMRC gan yr awdurdod sy'n talu'r budd-dal, ond ar gyfer rhai eraill, fel Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth nid oes y fath ofyniad. Yn gyffelyb, mae rhai lwfansau y gall gweithwyr eu hawlio yn erbyn enillion trethadwy ar ffurflen hunanasesiad sydd heb gael eu mantoli gan y cyflogwr o dan drefniadau TWE.

20. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau i eithrio'r elfennau hyn o'r diffiniad o incwm wythnosol gros[14]. Tra rydym yn derbyn mai effaith hyn ar rai achosion fydd i ddefnyddio swm o incwm ar gyfer gosod cynhaliaeth plant fydd ddim yn adlewyrchu'r ffigwr HMRC ac a allai arwain at gael swm llai o gynhaliaeth plant

[13] Regulation 36(1) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[14] Regulation 36(1)(c) and 36(2)(b) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

yn daladwy, rydym yn credu unwaith eto mai'r brif flaenoriaeth yw darparu rheolau cyfrifo sy'n cynyddu'r posibilrwydd o gysondeb ar draws bob achos. Bydd yr amrywiad incwm ychwanegol yn galluogi i'r Comisiwn ystyried incwm heb ei ennill pan fo'n sylweddol.

Incwm presennol - y ffynhonnell arall o incwm a ddefnyddir yn y cyfrifiad cynhaliaeth

21. Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y weinyddiaeth flaenorol ym Mhapur Gwyn 2006 y gallai cyfrifiad cynhaliaeth plant gael ei seilio ar incwm presennol rhiant dibreswyl pan fo o leiaf 25 y cant yn wahanol i'r incwm hanesyddol. Cadwyd hyn er mwyn rhoi hyblygrwydd digonol o fewn y cynllun ar gyfer delio gyda newidiadau sylweddol i incwm. Ond byddai'n ceisio osgoi ail adrodd yr anawsterau a gafwyd o fewn cynlluniau presennol wrth orfod ystyried newidiadau i incwm oedd cyn lleied â 5 y cant. Gallai'r rhain fod yn drafferthus, drwy ymyrryd ar daliadau cynhaliaeth a hefyd ychwanegu at faich gwaith gweinyddol, a hynny'n arwain at newid bychan yn y symiau taladwy yn y pen draw.

22. Mae'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r farn mai dim ond newidiadau sylweddol ddylai arwain at ddefnyddio incwm presennol i gyfrifo cynhaliaeth plant[15]. Rydym hefyd yn cynnig seilio bob atebolrwydd ar incwm presennol mewn achosion lle nad yw'r rhiant dibreswyl ar hyn o bryd yn cael budd-daliad ac nid oes gan HMRC unrhyw wybodaeth am incwm hanesyddol neu fod y ffigwr incwm hanesyddol ar gyfer y flwyddyn dreth lawn ddiwethaf yn ddim [16]. Yn ein barn ni, ni fyddai'n iawn i'r rhiant hwnnw gael cyfrifiad o ddim pan fod posibilrwydd eu bod nawr mewn gwaith.

23. Mae'r strwythur bras ar gyfer incwm presennol fel y gosodir allan yn y Rheoliadau yn adlewyrchu nifer o egwyddorion allweddol. Yn gyntaf, er mwyn cael asesiad manylach i weld os yw incwm presennol o leiaf 25 y cant yn wahanol neu beidio, dylai'r diffiniad o incwm presennol fod, cyn belled â phosib, yn adlewyrchiad llwyr o incwm hanesyddol. O ganlyniad, dylai incwm presennol, yn fras, fod yn drethadwy a chynnwys; incwm gwaith, incwm masnachu o hunangyflogaeth a thaliadau o gynlluniau pensiynau galwedigaethau neu breifat.[17]. Un gwahaniaeth pwysig yw na fydd y diffiniad o incwm presennol yn cynnwys budd-daliadau trethadwy: pan fo rhieni dibreswyl yn cael un ohonynt ar hyn o bryd, byddant fel arfer wedi cael eu hasesu i dalu'r gyfradd unffurf.

24. Golyga hyn, ar gyfer gweithwyr, bydd incwm presennol yn cael ei seilio yn fras ar elfennau trethadwy o'u hincwm, fel: tâl sylfaenol, taliadau goramser a sifft [18]. Rydym yn gwerthfawrogi na fydd llawer o rieni yn gyfarwydd gydag agweddau manwl ar dreth incwm. Er mwyn helpu rhieni, byddwn yn rhoi canllawiau clir i ddangos pa wybodaeth fydd y Comisiwn yn ei chynnwys neu'n ei gadael allan wrth weithio allan incwm presennol.

[15] Regulation 34(2) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[16] Regulation 34(2)(b) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[17] Regulation 37 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[18] Regulation 38(1) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

25. Egwyddor bellach, sy'n adlewyrchu'r ffaith y bydd HMRC yn rhoi symiau incwm blynyddol i'r Comisiwn, yw y dylai incwm presennol gael ei ddiffinio mewn ffordd sy'n caniatáu elfen o sefydlogrwydd wrth osod symiau newydd o gynhaliaeth. Nid yw'n fuddiol i unrhyw un os bydd newidiadau cyson i'r cyfrifiadau yn digwydd.

26. Pan fydd incwm presennol rhiant dibreswyl yn debygol o newid o un cyfnod i'r llall, bydd y Comisiwn yn ceisio gosod amcangyfrif wythnosol teg ar gyfer y taliadau hyn. Os bydd y rhiant dibreswyl yn derbyn taliadau ar gyfnodau llai rheolaidd nag enillion rheolaidd, er enghraifft bonws neu gomisiwn, bydd y Comisiwn yn gweithio allan cyfanswm taliadau o'r fath a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn ei newid i swm wythnosol cyfwerth.[19] Yr amcan yw lleihau effaith gwahaniaethau dros dro a chynyddu tebygolrwydd y bydd y cyfrifiad cynhaliaeth a'r trefniadau talu sy'n ymwneud â'r cyfrifiad hwnnw yn parhau nes caiff y cais ei adolygu nesaf.

27. Mae incwm presennol mewn perthynas â hunangyflogaeth yn achosi problem benodol sy'n deillio o'r ffaith bod incwm hanesyddol yn seiliedig ar yr elw trethadwy o fusnes ac nid talebau busnes neu beth fydd y rhiant dibreswyl yn cymryd o'r busnes ar sail reolaidd. Fel arfer, cyfrifir elw trethadwy ar ddiwedd cyfnod cyfrifo'r unigolyn, ac ar ôl gwneud rhai penderfyniadau penodol ar ddiwedd blwyddyn, fel y symiau i'w pennu fel dyledion drwg neu symiau a hawliwyd am ddibrisiant neu lwfansau cyfalaf. Ffactor pellach yw ei fod yn nodweddiadol i fusnesau gael cyfnodau prysur a chyfnodau tawel yn ystod y cyfnod cyfrifo. Efallai bydd rhai pobl yn cymryd amser i ffwrdd o'u busnesau yn ystod y flwyddyn neu gymryd rhan mewn gweithgareddau busnes sydd ddim yn uniongyrchol broffidiol.

28. Golyga hyn oll na fyddai elw yn cael ei ennill yn gyfartal dros y flwyddyn gyfan. Ni fyddai cael "cipolwg" o'u harian presennol gan riant dibreswyl hunangyflogedig yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa flynyddol hirdymor. Am y rhesymau hynny, rydym yn cynnig y dylai incwm presennol rhieni dibreswyl hunangyflogedig o fusnes gael ei asesu ar yr un sail ac am yr un cyfnod o amser ag incwm hanesyddol, hynny yw, elw trethadwy am gyfnod blynyddol.[20] Pan gall y rhiant dibreswyl ddangos at foddhad y Comisiwn bod eu busnes wedi stopio masnachu, gellir ystyried incwm presennol y busnes hwnnw i fod yn ddim.[21]

Sut i drin cyfraniadau pensiwn

29. Yn aml, mae cyflogwyr yn didynnu cyfraniadau pensiwn yn uniongyrchol o gyflog gros y rhiant dibreswyl gan roi ffigwr net ar y ffurflen ddiwedd blwyddyn TWE. Ond ni chaiff bob cyfraniad ei dalu fel hyn, er enghraifft, gallai unigolion wneud taliadau yn uniongyrchol i ddarparwyr eu cynllun pensiwn personol.

[19] Regulation 38(3) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[20] Regulation 39 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[21] Regulation 39(6) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

30. Mae bob Llywodraeth yn yr oes hon wedi pwysleisio'r delfryd o gael pobl i wneud eu darpariaethau eu hunain ar gyfer incwm eu hymddeoliad, ac maent wedi cyflwyno ysgogiadau i annog hyn. Er enghraifft, o dan y cynllun cynhaliaeth plant presennol, mae cyfraniadau a delir i gynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol yn cael eu didynnu o'r incwm wythnosol cyn cyfrifo'r atebolrwydd cynhaliaeth. Does dim terfyn penodol ar y swm o gyfraniadau a ellir ei ddidynnu, er y gall rhiant â gofal sy'n ystyried bod y didyniadau yn eithafol wneud cais am amrywiad.

31. Rydym yn cynnig parhau gyda'r rheol hon fel y bydd unrhyw gyfraniad yn cael ei ddidynnu wrth gyfrifo incwm wythnosol gros. Mae hyn yn gymwys i incwm hanesyddol ac incwm presennol[22]. Yn aml bydd hyn yn effeithiol yn awtomatig, pan fydd cyflogwr eisoes wedi mantoli hyn ar ffurflen TWE yr unigolyn. Os na fydd hyn wedi digwydd, bydd y rhiant dibreswyl yn cael eu cynghori i hysbysu'r Comisiwn am eu cyfraniadau pensiwn er mwyn i'r didyniad gael ei wneud. Bydd y swm a ddidynnir o ffigwr yr incwm yn cynnwys gwerth unrhyw ostyngiad treth sy'n gymwys i'r cyfraniadau.

Sut bydd y Comisiwn yn sefydlu incwm presennol

32. Heblaw mewn achosion ble mae HMRC wedi methu â rhoi ffigwr incwm hanesyddol positif, ni fydd y Comisiwn yn chwilio am wybodaeth incwm presennol. Cyfrifoldeb y rhiant fydd dweud wrth y Comisiwn os yw'r incwm presennol o leiaf 25 y cant yn wahanol. Yn gyntaf, bydd y baich ar y rhiant i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi eu cais. Rydym yn deall y bydd angen gosod gwahanol ofyniadau ar rieni â gofal, ac mae'n annhebygol y bydd ganddynt yr un lefel o wybodaeth â'r rhiant dibreswyl.

33. Rydym yn cydnabod y bydd rhai enghreifftiau pan fydd rhiant dibreswyl yn amharod i roi tystiolaeth o'u hincwm presennol, fel sy'n digwydd gyda chynlluniau presennol y CSA. Mae'r Crynodeb yn egluro ein cynllun i'w wneud yn drosedd i riant dibreswyl, os bydd y cyfrifiad yn seiliedig ar incwm presennol, fethu â rhoi gwybod i'r Comisiwn am gynnydd o 25 y cant i'w hincwm presennol. Pan na fydd y Comisiwn yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen gan y rhiant dibreswyl, byddant yn gofyn i'r cyflogwr presennol (os yn hysbys).

34. Pan fydd HMRC wedi methu â rhoi ffigwr incwm hanesyddol positif, bydd y Comisiwn yn archwilio'r posibilrwydd o wneud cyfrifiad gan ddefnyddio amcangyfrif o incwm presennol y rhiant dibreswyl. Byddant yn ceisio sefydlu ffigwr teg wedi ei amcangyfrif yn seiliedig ar beth maent yn ei wybod am y rhiant dibreswyl. Er enghraifft, os byddant yn gwybod lleoliad a swyddogaeth bresennol y rhiant dibreswyl, gall y Comisiwn amcangyfrif yn seiliedig ar wybodaeth gyhoeddus am incwm nodweddiadol a chyfartalog pobl sy'n gweithredu yn rhanbarth a swyddogaeth y rhiant dibreswyl.[23]. Neu, gallant ystyried defnyddio gwybodaeth incwm sydd ganddynt am gyfnod blaenorol.

[22] Regulation 35(3) and 40 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[23] Regulation 42 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

35. Os nad yw'n bosib defnyddio'r uchod i gael ffigwr incwm presennol, bydd y Comisiwn dal yn gallu gwneud penderfyniad cynhaliaeth diffyg. Bydd hyn yn rhoi atebolrwydd wythnosol o £30 ar gyfer un plentyn, £40 ar gyfer dau a £50 ar gyfer tri neu fwy.[24].

36. **Cwestiwn Deg:** **Ydych yn credu dylai'r symiau dyfarniad Penderfyniad Diffyg Cynhaliaeth gynyddu gyda chwyddiant?**

Newid cyfrifiad

Adolygiadau blynyddol

37. Un nodwedd o'r cynllun newydd yw adolygu incwm rhiant dibreswyl yn flynyddol. Yn yr adolygiad blynyddol yma, bydd y Comisiwn yn gofyn am wybodaeth blwyddyn dreth ddiweddaraf y rhiant dibreswyl gan HMRC ac yn addasu'r atebolrwydd cynhaliaeth. Ar gyfer y mwyafrif o achosion, os yw'r atebolrwydd yn seiliedig ar incwm hanesyddol, bydd yr adolygiad blynyddol yn gosod yr atebolrwydd am y flwyddyn i ddod a bydd yr atebolrwydd hwnnw ddim ond yn newid os bydd rhiant yn rhoi gwybod i'r comisiwn bod incwm presennol 25 y cant yn fwy neu'n llai na'r ffigwr hwnnw.

38. Bydd adolygiad blynyddol dal yn cael ei gynnal ar gyfer rhieni dibreswyl sydd gydag atebolrwydd yn seiliedig ar incwm presennol. Bydd y ffigwr incwm presennol yn cael ei gymharu gyda'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf ac os yw 25 y cant yn wahanol, bydd yn aros. Os nad yw, yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddisodli'r incwm presennol gyda'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf.

39. Bydd adolygiad blynyddol rhiant dibreswyl yn cael ei gynnal deuddeng mis ar ôl gosod y dyddiad effeithiol gwreiddiol [25] a bydd unrhyw benderfyniad i ddiweddaru incwm yn dod yn effeithiol o'r diwrnod hwnnw. Er mwyn sicrhau bod y swm cywir o gynhaliaeth wedi cael ei osod ar ddyddiad yr adolygiad, mae'r Comisiwn yn bwriadu cychwyn y broses adolygu flynyddol dri deg diwrnod cyn dyddiad yr adolygiad blynyddol.

40. Tri deg diwrnod cyn dyddiad yr adolygiad blynyddol, bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at rieni i roi gwybod iddynt am y ffigwr incwm fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo atebolrwydd y rhiant dibreswyl am y flwyddyn i ddod. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys dadansoddiad o'r cyfrifiad cynhaliaeth, gan gynnwys manylion y plant cymwys ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel plant perthnasol eraill a rhannu gofal. Nid yw hyn yn benderfyniad ac felly nid oes hawliau apelio. Bydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud ar ddyddiad effeithiol yr adolygiad blynyddol.

41. Bydd y ffigwr incwm yn seiliedig ar beth mae'r Comisiwn yn ei wybod yn barod am incwm y rhiant dibreswyl ar y pryd. Os yw'r atebolrwydd yn seiliedig ar

[24] Regulation 49 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[25] Regulation 19(2) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

incwm hanesyddol a roddwyd gan HMRC bydd yn cael ei ddisodli gyda ffigwr mwy diweddar yn awtomatig. Os yw atebolrwydd y rhiant dibreswyl yn seiliedig ar incwm presennol yna bydd y Comisiwn yn penderfynu os yw'n addas neu beidio i'r ffigwr aros neu gael ei ddisodli gan y ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf. Mae hyn yn dibynnu os yw'r ffigwr incwm presennol 25 y cant yn wahanol i'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf neu beidio.

42. Bydd gan rieni dri deg diwrnod i roi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newid ac i roi gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol i ategu'r newid. Os bydd y naill barti yn herio'r ffigwr incwm a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus, er enghraifft, os yw incwm presennol y rhiant dibreswyl o leiaf 25 y cant yn wahanol, yna bydd ffigwr yr incwm yn cael ei addasu. Hefyd, bydd gan rieni'r cyfle i roi gwybod i'r Asiantaeth am unrhyw newid arall allai effeithio ar yr atebolrwydd cynhaliaeth, er enghraifft, newidiadau i drefniadau rhannu gofal.

43. Ar ddyddiad effeithiol yr adolygiad blynyddol bydd penderfyniad cyfrifo ffurfiol yn cael ei anfon at y rhiant dibreswyl ac at y rhiant â gofal i'w hysbysu am yr atebolrwydd cynhaliaeth am y flwyddyn i ddod.

Enghraifft

- Sally, rhiant â gofal, a George, rhiant dibreswyl, yw rhieni Bonnie. Dyddiad adolygiad blynyddol eu hachos yw 1af Rhagfyr.
- Mae atebolrwydd cynhaliaeth presennol George yn seiliedig ar ddata incwm hanesyddol o £400 yr wythnos.
- Mae'r Comisiwn yn ysgrifennu at George a Sally tri deg diwrnod cyn yr adolygiad blynyddol i ddweud wrthynt y bydd yr atebolrwydd cynhaliaeth ar gyfer Bonnie, o 1af Rhagfyr ymlaen, yn seiliedig ar incwm hanesyddol o £430 yr wythnos.
- Mae George yn cysylltu gyda'r Comisiwn ar y 5ed Tachwedd ac yn dweud wrthynt fod ei incwm presennol nawr yn £295 yr wythnos. Mae George yn rhoi tystiolaeth gadarn ar ffurf slipiau cyflog i ategu'r newid yma.
- Mae'r Comisiwn yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, maent yn cymharu incwm presennol George (£295) gyda'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf (£430). Mae'r ffigwr incwm presennol 25% yn wahanol felly mae'r Comisiwn yn disodli'r ffigwr incwm gan HMRC gyda ffigwr incwm presennol George. Felly, o'r 1af Rhagfyr, bydd atebolrwydd cynhaliaeth George yn seiliedig ar £295 yr wythnos. Os na roddir gwybod am unrhyw newid arall, bydd y cyfrifiad hwnnw yn aros mewn grym hyd nes yr adolygiad blynyddol nesaf.
- Bydd y Comisiwn hefyd yn cymharu'r ffigwr incwm presennol yn erbyn y ffigwr incwm o £400 o'r atebolrwydd sy'n bodoli'n barod. Mae hyn hefyd 25% yn wahanol felly mae'r Comisiwn yn gwneud penderfyniad (**disodli**) i newid yr atebolrwydd cynhaliaeth sy'n bodoli'n barod fel ei bod yn seiliedig ar £295 yr wythnos yn effeithiol o'r dyddiad rhoddodd George wybod iddynt am y newid, sef y 5ed Tachwedd. Bydd hyn yn aros mewn grym hyd

at y 1af Rhagfyr.

44. Gall newid a roddir gwybod amdano o fewn tri deg diwrnod ar ôl i rieni gael gwybod am y penderfyniad adolygiad blynyddol arwain at ddiwygio'r atebolrwydd cynhaliaeth sy'n bodoli yn barod. Rydym yn sylweddoli y gallai hyn fod yn anodd i rai cwsmeriaid ei ddeall a byddant yn cael cymorth ychwanegol er mwyn deall y newidiadau i'w cyfrifiad cynhaliaeth. Serch hyn, mae'r Comisiwn yn credu mai dyma'r ffordd fwyaf teg i sicrhau bod rhieni wastad yn talu'r lefel gywir o gynhaliaeth.

Gwiriad incwm cyfnodol

45. Yn ogystal â'r adolygiad blynyddol, mae'r Comisiwn yn bwriadu edrych ar dystiolaeth incwm presennol unwaith y flwyddyn pan na chaiff ei ddiweddaru gan y rhieni neu gan adolygiad blynyddol y Comisiwn[26]. Mae hyn yn sicrhau bod pob atebolrwydd cynhaliaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

46. Nid yw'r gwiriad incwm cyfnodol yn cael ei gynnal ar yr un pryd a'r adolygiad blynyddol am ddau reswm. Yn gyntaf, oherwydd y gallai'r incwm presennol fod ond mewn grym am gyfnod byr ar adeg yr adolygiad blynyddol a byddai yn fwrn ar y rhiant dibreswyl i orfod rhoi tystiolaeth eto. Yn ail, mae'r Comisiwn yn bwriadu i'r broses adolygu flynyddol fod yn awtomatig yn bennaf er mwyn hwylustod, effeithlonrwydd ac i sicrhau penderfyniad cyflym. Bydd yn edrych ar dystiolaeth incwm presennol dim ond os yw'n ategu cais gan riant a wnaed yn ystod y broses i gael newid y cyfrifiad cynhaliaeth.

47. Os, ar ôl un mis ar ddeg, bod atebolrwydd cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm presennol sydd heb newid, bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y rhiant dibreswyl i ofyn iddynt roi tystiolaeth newydd i ddangos bod eu hincwm presennol dal 25 y cant yn wahanol. Os bydd y rhiant dibreswyl yn rhoi tystiolaeth, yna bydd y ffigwr yn cael ei gymharu yn erbyn y ffigwr hanesyddol a roed gan HMRC yn yr adolygiad blynyddol diwethaf. Er na fyddai'r ffigwr hanesyddol wedi cael ei ddefnyddio yn yr adolygiad blynyddol, byddai wedi cael ei gadw a bydd yn cael ei ddefnyddio nawr ar gyfer cymhariaeth. Mae hyn oherwydd mai'r ffigwr incwm hanesyddol yw'r wybodaeth incwm mwyaf dibynadwy sydd gan y Comisiwn am y rhiant dibreswyl ar yr adeg honno.

48. Os bydd y dystiolaeth a roddir gan y rhiant dibreswyl yn arddangos bod yr incwm presennol 25 y cant yn wahanol i'r ffigwr incwm hanesyddol diweddaraf, yna bydd y Comisiwn yn parhau gyda'r incwm presennol. Os yw'r ffigwr incwm presennol wedi newid ac nad yw bellach 25 y cant yn wahanol i'r incwm hanesyddol, yna bydd y Comisiwn yn gwneud penderfyniad cyfrifo cynhaliaeth (diwygiad) yn seiliedig ar y ffigwr newydd. Os na fydd y rhiant dibreswyl yn ymateb i gais y Comisiwn am dystiolaeth o incwm presennol o fewn yr amser penodol, yna bydd y cyfrifiad cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm hanesyddol. Os bydd rhiant â gofal yn rhoi gwybodaeth am incwm presennol y rhiant dibreswyl neu'n gwneud cais am newid i'r atebolrwydd yn ystod y cyfnod yma, yna bydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw beth a roddir gan y rhiant dibreswyl.

[26] Regulation 22 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

Bydd dyddiad effeithiol y penderfyniadau hyn yn cyd-fynd gyda'r dyddiad pryd gwneir y penderfyniad ac mae'r Comisiwn yn disgwyl i hyn fod 30 diwrnod ar ôl ysgrifennu at y rhiant dibreswyl i ofyn am dystiolaeth o'r fath.

49. Os bydd y Comisiwn yn penderfynu y dylai'r ffigwr fod wedi cael ei hysbysu gan y rhiant dibreswyl o dan y gofyniad gorfodol i roi gwybod am newidiadau mewn incwm presennol[27], yna bydd y dyddiad effeithiol yn cyd-fynd gyda'r dyddiad pryd newidiodd incwm y rhiant dibreswyl 25 y cant.

Amrywiadau

50. Cynigir newidiadau sylweddol i sut bydd amrywiadau yn cael eu hymchwilio a'u rheoli yn y cynllun newydd. Gwnaed addasiad i'r Ddeddf Cynnal Plant 1991 yn y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 fel rhan o becyn o newidiadau ehangach. Roedd yr addasiad yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael iddynt wrth benderfynu ar geisiadau am amrywiadau gan riant â gofal. Mae hyn oherwydd, o dan y cynllun 2003, mae wedi bod yn gyfrifoldeb y rhiant â gofal i 'brofi' y seiliau sy'n arwain at gynnydd i atebolrwydd cynhaliaeth rhiant dibreswyl. Mae'r ddyletswydd a nodir yn y Ddeddf 2008 yn symud y baich oddi wrth y rhiant â gofal fel bod y Comisiwn yn gallu cael mynd at ffynonellau gwybodaeth perthnasol, gan gynnwys gwybodaeth incwm a geir gan HMRC.

51. Pan fydd rhiant â gofal yn gwneud cais am amrywiad ar sail incwm heb ei ennill neu incwm o enillion ble mae'r rhiant dibreswyl neu eu partner ar y gyfradd sero neu'r gyfradd unffurf, ni fydd y Comisiwn yn disgwyl iddynt roi unrhyw wybodaeth heblaw am y wybodaeth sydd ei hangen i sefydlu'r sail. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn gofyn i'r rhiant â gofal am eglurhad pam eu bod yn amau bod gan y rhiant dibreswyl incwm ychwanegol. Mae hyn er mwyn amddiffyn y system rhag unrhyw geisiadau honedig sy'n dyfalu neu'n annilys.

52. Mae ceisiadau am amrywiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cydnabod unrhyw incwm y gallai rhiant dibreswyl fod wedi ei ddargyfeirio yn llawer mwy cymhleth a byddant yn parhau i fod yn her i'w prosesu yn y cynllun newydd. Mae hyn am nad oes ffynhonnell annibynnol o wybodaeth ar gael i'r Comisiwn allu ei defnyddio i adnabod yr achosion hyn. Bydd y Comisiwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar rieni i roi gwybodaeth ategol. Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn defnyddio adnoddau yn effeithiol, rydym yn bwriadu edrych yn fanwl ar geisiadau ar sail unigol gan ddefnyddio gwybodaeth a roddir gan y rhiant â gofal ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall y Comisiwn ei chasglu.

53. Nid yw'r Rheoliadau yn cynnwys y seiliau presennol ar gyfer asedau neu fodd o fyw sy'n anghyson gydag incwm a ddatganwyd. Mae'r ddwy sail yma yn arwain at swm tybiannol sy'n seiliedig ar yr asedau sydd gan riant dibreswyl neu eu ffordd o fyw. Rydym yn cynnig cael gwir adlewyrchiad o'r incwm a ddaw o ased a'r incwm a ddefnyddir i ariannu ffordd o fyw fel hyn yn hytrach na chymhwyso symiau tybiannol. Bydd incwm o'r fath yn dod o dan y sail incwm heb ei ennill

[27] Regulation 9A of the Child Support Information Regulations 2012, as inserted by the proposed Child Support (New Calculation Rules) (Consequential and Miscellaneous Amendment) Regulations 2012

ble mae gan riant dibreswyl incwm trethadwy o eiddo, cynilion a buddsoddiadau (gan gynnwys difidendau) ac adran amrywiol arall bras sy'n adlewyrchu nifer o fathau o incwm.

54. Ffordd effeithiol o ddangos y gwahaniaeth yw cymharu sut byddai amrywiad yn cael ei drin o dan y cynllun 2003 yn erbyn y cynnig ar gyfer y cynllun newydd. Mae'r enghraifft isod yn astudio sefyllfa ble mae rhiant dibreswyl yn cael incwm o rentu eiddo. Yn y cynllun 2003 byddai hyn yn cael ei ddelio ag ef o dan sail asedau ac yn y cynllun newydd bydd yn cael ei drin o dan sail incwm heb ei ennill.

Enghraifft

- Sarah, rhiant â gofal, a Mark, y rhiant dibreswyl, yw rhieni Stacey. Mae Sarah yn gwneud cais am amrywiad, er mwyn ystyried eiddo sy'n cael ei rentu allan gan Mark.
- Mae Mark yn cael gwybod am yr amrywiad ac yn cadarnhau bod ganddo un eiddo mae'n ei rentu allan. Gwerth yr eiddo yw £200,000 a'r morgais sy'n weddill yw £100,000. Yr elw gros o rent yw £800 y mis.

O dan y cynllun 2003

Bydd y sefyllfa yn cael ei thrin o dan sail asedau a bydd incwm tybiannol yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso cyfradd statudol o log (8% ar hyn o bryd) i'r ecwiti yn yr eiddo.

- £100,000 x 8% (cyfradd statudol o log) = £8,000.
- Mae hwn yn cael ei newid i ffigwr wythnosol.
- £8,000 wedi ei rannu gyda 52 wythnos = £153.8
- £153.85 sy'n cael ei ychwanegu at incwm wythnosol net Mark

O dan y cynllun newydd

Bydd y sefyllfa yn cael ei thrin o dan y sail incwm heb ei ennill a bydd incwm o £2,500 y flwyddyn neu fwy o eiddo, cynilion a buddsoddiadau neu unrhyw beth arall amrywiol yn arwain at amrywiad. Yn achos Mark, bydd y Comisiwn yn seilio'r amrywiad ar yr incwm mae'n ei ennill o rentu.

- Mae HMRC yn rhoi ffigwr incwm eiddo o £9,600
- Mae hwn yn cael ei newid i ffigwr wythnosol.
- £9,600 wedi ei rannu gyda 365 x 7 = £184.00
- £184.00 sy'n cael ei ychwanegu at incwm wythnosol gros Mark

Os byddai eiddo Mark yn wag ac nad oedd yn cael incwm o rent yna byddai'r amrywiad yn cael ei wrthod o dan reolau'r cynllun newydd. Byddai rheolau'r cynllun 2003 yn parhau i ganiatáu'r amrywiad.

Sut bydd amrywiadau incwm ychwanegol yn cael eu diweddaru?

Bydd amrywiadau sy'n adlewyrchu incwm heb ei ennill sydd gan riant dibreswyl yn cael eu diweddaru yn yr adolygiad blynyddol os ydynt yn seiliedig ar ffigwr incwm gan HMRC. Os oes gan riant dibreswyl dystiolaeth o flwyddyn dreth lawn fwy diweddar, er enghraifft, os nad ydynt eto wedi llenwi eu ffurflen hunanasesiad neu fod y wybodaeth yn cael ei phrosesu gan HMRC, yna gall y naill riant ofyn i'r amrywiad fod yn seiliedig ar y flwyddyn dreth honno. Os gwneir y cais yma pan fo'r amrywiad yn cael ei osod am y tro cyntaf neu yn ystod yr adolygiad blynyddol, yna bydd y ffigwr o'r flwyddyn dreth ddiweddaraf yn cael ei gymryd cyn belled â'i fod yn cwrdd â'r trothwy[28] o £2,500 y flwyddyn. Os gwneir y cais ar unrhyw bryd arall yn ystod y flwyddyn, yna rhaid i'r ffigwr o'r

[28] Regulation 23(2)(a) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

flwyddyn dreth ddiweddaraf fod o leiaf 25 y cant neu fwy'n wahanol i'r ffigwr[29] incwm heb ei ennill sy'n bodoli'n barod. Mae hyn er mwyn osgoi amharu ar yr atebolrwydd cynhaliaeth gan newidiadau llai sylweddol. Gall rhieni dibreswyl sy'n colli eu hincwm rhan o'r ffordd drwy gyfnod cyfrifo neu flwyddyn dreth oherwydd colli'r ased sy'n cynhyrchu'r incwm, gael gosod eu ffigwr incwm heb ei ennill i fod yn ddim, os gallant roi tystiolaeth ategol. [30]1.

Bydd amrywiadau yn seiliedig ar incwm o enillion (pan fydd y rhiant dibreswyl ar gyfradd sero neu gyfradd unffurf) yn cael eu trin yn yr un ffordd â'r incwm wythnosol gros a ddefnyddir yn y prif gyfrifiad. Golyga hyn, os oes gan riant dibreswyl incwm presennol sydd o leiaf 25 y cant neu fwy'n wahanol i'r ffigwr sydd mewn grym, yna gallant gael eu hamrywiad wedi ei seilio ar hwnnw [31]1.

. Mae amrywiadau incwm wedi ei ennill yn destun adolygiadau blynyddol, waeth os ydynt yn seiliedig ar incwm presennol neu incwm hanesyddol. Mae'r amrywiadau hyn hefyd yn destun y ddyletswydd i roi gwybod i'r Comisiwn am gynnydd i incwm presennol a eglurir ar waelod yr Atodiad yma.

2. Ni fydd amrywiadau sy'n cydnabod incwm mae rhiant dibreswyl wedi ei ddargyfeirio yn destun adolygiad blynyddol oherwydd na fyddant yn seiliedig ar ffigwr incwm a geir gan HMRC. Gall rhieni wneud cais i'r amrywiadau hyn gael eu cynyddu, eu gostwng neu eu darfod ond ni fydd y Comisiwn yn adolygu'r achosion hyn yn rheolaidd.

Amrywiadau treuliau arbennig

55. Mae amrywiadau treuliau arbennig yn galluogi rhiant dibreswyl i gael costau arbennig wedi eu hystyried, er enghraifft, y costau sy'n cronni wrth gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd gyda'r plentyn cymwys. Bydd unrhyw symiau a gytunir arnynt, yn gyffredinol, yn cael eu didynnu o incwm wythnosol gros [32] y rhiant dibreswyl er mwyn creu atebolrwydd newydd. Mae'r seiliau sydd ar gael i rieni dibreswyl yn y cynllun newydd yn bennaf heb newid ac maent fel a ganlyn:

55.1. <u>Costau cyswllt</u>[33]
Mae'r sail yma yn anelu at gydnabod y costau mae rhieni dibreswyl yn eu cronni wrth deithio i weld y plentyn cymwys.

55.2. <u>Salwch neu anabledd plentyn perthnasol arall</u>[34]
Mae'r sail yma ar gyfer rhieni dibreswyl sydd gyda phlentyn perthnasol arall y telir Lwfans Byw i'r Anabl ar ei gyfer. Mae'n anelu at ystyried rhai costau arbennig sydd gan y rhiant dibreswyl o ganlyniad i reoli salwch y plentyn hwnnw.

55.3. <u>Dyledion blaenorol</u>[35]

[29] Regulation 23(1)(b) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[30] Regulation 69(6) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[31] Regulation 34(2) of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[32] Regulation 72 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[33] Regulation 63 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[34] Regulation 64 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[35] Regulation 65 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012

Mae'r sail yma yn cydnabod dyledion penodol a gronnwyd gan y rhiant dibreswyl a'r rhiant â gofal pan oeddent dal gyda'i gilydd ac mae'r rhiant dibreswyl dal yn gyfrifol amdanynt yn ôl y gyfraith.

55.4. Ffioedd ysgol breswyl[36]
Mae'r sail yma yn cydnabod y costau mae rhiant dibreswyl yn eu talu er mwyn i'r plentyn cymwys fynd i ysgol breswyl.

55.5. Taliadau ar gyfer morgais, benthyciad neu bolisïau yswiriant[37] penodol
Mae'r sail yma yn cydnabod rhieni dibreswyl sy'n talu tuag at forgais ar gartref y rhiant â gofal pan nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny.

Newidiadau i amrywiadau treuliau arbennig yn y cynllun newydd

56. Nid yw'r rheoliadau yn cynnwys trosglwyddiadau eiddo neu gyfalaf a wnaed cyn 1993. Mae hyn gan na fydd unrhyw blant cymwys y gallai'r amrywiad fod ar eu cyfer yn weddill erbyn i'r cynllun newydd ddechrau.

57. Newid pellach yw bod y rheoliadau yn caniatáu amrywiad costau cyswllt pan fydd rhiant dibreswyl yn rhannu gofal am y plentyn cymwys. Nid yw'r cynllun 2003 yn caniatáu amrywiad yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig annog a chynorthwyo cyswllt rheolaidd rhwng rhieni a'u plant.

58. Y trothwy ar gyfer treuliau arbennig (heblaw am salwch neu anabledd os yn blentyn perthnasol arall) yn y cynllun newydd fydd £10 a rhaid i bob traul groesi'r trothwy hwnnw er mwyn cael ei dderbyn[38]. Mae'r cynllun 2003 yn cymhwyso'r trothwy i gyfanswm y costau pan gymhwysir mwy nag un sail. Unwaith cwrddir â'r trothwy ac y cytunir ar yr amrywiad, bydd cyfanswm y draul yn cael ei ddidynnu o incwm wythnosol gros y rhiant dibreswyl[39]. Mae hyn hefyd yn wahanol i'r cynllun 2003 ble dim ond y swm treuliau arbennig sydd dros y trothwy gaiff ei ddidynnu o incwm wythnosol gros.

[36] Regulation 66 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[37] Regulation 67 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[38] Regulation 68 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012
[39] Regulation 68 of the Child Support Maintenance Calculation Regulations 2012